TORFAEN COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad Torfaen 2019/20

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

CYFLAWNI EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL 3 (CC3)

HYDREF 2020

# EIN GWELEDIGAETH I DORFAEN

**Torfaen: Lle diogel, ffyniannus, cynaliadwy lle mae gan bawb y cyfle i fod y gorau medrent**

# EIN GWERTHOEDD FEL SEFYDLIAD

**Cefnogol; Teg; Effeithiol; Arloesol**

# EIN HADRODDIAD AR BERFFORMIAD YN 2019/20
# CYFLENWI EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL 3 (CC3)


Rhagair Tud. 4

1. Cyflwyniad …………………………………………………………….......  Tud. 5

2. Gwelliannau yn Nhorfaen....................................................................  Tud. 5

3. Ein hamcanion gwella ........................................................................  Tud. 5

4. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ......................................  Tud. 7

5. Gweithio mewn partneriaeth .............................................. Tud. 7

6. Ein Perfformiad yn 2019/20 …………………………………………  Tud. 8

7. Boddhad y Cyhoedd ac Ymgysylltu â Dinasyddion ..............  Tud. 13

8 Herio ein perfformiad ..............................................................  Tud. 14

9. Ymateb i'r Pandemig Byd-eang …………………………  Tud. 14

10. Y Flwyddyn Nesaf a Thu Hwnt ................................................  Tud. 15

Atodiad 1 – Torfaen Sy'n Lân ac yn Wyrdd ................................................  Tud. 18

Atodiad 2 – Codi Cyrhaeddiad Addysgol ................................................  Tud. 24

Atodiad 3 - Cymorth i'r trigolion mwyaf bregus yn Nhorfaen ...........  Tud. 32

Atodiad 4 - Ein perfformiad yn 2019/20 - Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Tud. 39


Mae'r ddogfen hon yn cynnwys asesiad o berfformiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn y flwyddyn ariannol 2019/20, a baratowyd o dan ran un, adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a chanllawiau cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

## Rhagair

Croeso i'n hadroddiad ar berfformiad yn 2019/20, dogfen statudol sy'n dangos y gwelliannau yr ydym wedi eu cyflawni i wasanaethau ar draws nifer o feysydd penodol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r adroddiad yn adolygu'r holl waith a gwblhawyd gennym i wella ein gwasanaethau, ac mae'n nodi ein hunanwerthusiad o'r cynnydd a wnaed gennym yn ystod y flwyddyn.

2019/20 oedd y bedwaredd flwyddyn i ni weithredu ein Cynllun Corfforaethol cyfredol, CC3. Mae'r cynllun yn nodi ein tair blaenoriaeth i Dorfaen tan ddiwedd 2020/21;Torfaen Sy'n Lân ac yn Wyrdd, Codi Cyrhaeddiad Addysgol, a Chefnogaeth i'r Trigolion mwyaf Bregus yn Nhorfaen.

Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019/20, gyda lledaeniad y pandemig byd-eang COVID-19, daeth yn amlwg ein bod bellach yn symud i fyd gwahanol iawn. Mae'r 6 mis diwethaf wedi bod yn brawf nid yn unig i ni ond ein partneriaid mewn gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a busnesau mewn ffordd na allem ni gredu ei bod yn bosibl flwyddyn yn ôl. Mae'r ymateb ar y cyd i'r fath sefyllfa ddigynsail wedi bod yn ysgubol. Heb gyfraniad gwirfoddolwyr o'n cymunedau, yn gweithio ochr yn ochr â'n staff ein hunain, byddai'n amhosibl inni sicrhau diogelwch rhai o'n trigolion mwyaf bregus.

Rydym wedi dod yn gyfarwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf â gweithio'n agos gyda'n partneriaid ar draws rhanbarth De Cymru, naill ai trwy Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen, Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent neu Fargen Dinas Caerdydd. Rydym yn falch o'r gwaith rydym wedi'i wneud gyda'n partneriaid gan ein bod wedi sefyll ysgwydd wrth ysgwydd i ddarparu ymateb cydgysylltiedig ar y cyd i bandemig COVID-19.

Rydym yn gwybod bod angen i ni symud o gyfnod ymateb i gyfnod adfer wrth inni symud ymlaen trwy'r flwyddyn ariannol nesaf ond mae hyn ymhell o fod yn broses syml wrth i ni barhau i warchod rhag achosion lleol pellach o COVID-19 a'r cyfyngiadau y gallai hyn eu rhoi ar y ffordd yr ydym ni'n byw a gweithio .. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio adeiladu ar y profiadau cadarnhaol a'r arfer da, sy'n deillio o'r ffordd yr ydym ni a'n cymunedau wedi ymateb yn Nhorfaen.

Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn yn nodi ein cynllun adfer ar sail tri maes eang; ein sefydliad, ein cymunedau a'n busnesau / economïau lleol. Dau fater sylfaenol fydd yn dylanwadu ar bob agwedd ar gynllunio i adfer yw cyflymu tueddiadau ac arloesi presennol, a'r anghydraddoldebau sy'n ehangu o ganlyniad. Bydd gan y grymoedd hyn oblygiadau dwys i ni, fel sefydliad ac fel cymuned.

Roedd gennym ni ragolwg ariannol heriol eisoes fel cyngor ond o leiaf cyn y pandemig roedd gennym ni rywfaint o sicrwydd ynghylch maint yr her yr oeddem ni'n ei hwynebu yn y dyfodol. Mae pandemig COVID-19 wedi creu llawer iawn o ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol ond heb os, bydd yn arwain at heriau ariannol pellach.

Er ein bod yn wynebu sefyllfa ariannol anodd, rydym wedi ymateb gyda rhaglen drawsnewid uchelgeisiol, a fydd, yn ein barn ni, yn ganolog i ni allu darparu gwasanaethau cynaliadwy yn y dyfodol, wrth gefnogi gwelliannau i wasanaethau sydd o flaenoriaeth. Bydd angen i ni gynnal ein huchelgais trwy'r broses adfer ac wrth ddatblygu Cynllun Corfforaethol newydd. Mae gan effeithiau COVID-19 y potensial i fod gyda ni trwy gydol ein Cynllun Corfforaethol nesaf a thu hwnt. Gyda hynny mewn golwg, hyd y gellir rhagweld, p'un a yw'n datblygu cynlluniau newydd neu'n adolygu rhai sy'n bodoli eisoes, bydd angen i effeithiau parhaus a datblygol COVID-19 fod ar frig ein meddyliau.



Y Cyng. Anthony Hunt

Arweinydd y Cyngor



Alison Ward

Prif Weithredwr





# 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru, drwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn rhoi dyletswydd arnom i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus a rhoi cyfrif amdano.

Ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i ni gyhoeddi cynllun sy'n nodi ein hamcanion gwella ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Unwaith y byddwn mewn sefyllfa i roi cyfrif am ein gweithgarwch ar gyfer y flwyddyn honno, rhaid i ni gyhoeddi adroddiad yn dangos ein perfformiad.

Diben ein hadroddiad yw cyflawni'r gofyniad statudol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20. Adolygiad o'n perfformiad ni ydyw a chaiff ei lunio ar sail y dystiolaeth sy'n dangos yr amcanion gwella y cytunwyd arnynt ac a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol a'r effaith a gafwyd yn sgil ein gweithgareddau.

Trwy asesu'n fanwl p'un ai a fu ein cynnydd yn araf neu heb gyflawni perfformiad ar lefel yr oeddem yn ei ddymuno, gallwn addasu'r ffordd yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau i sicrhau bod ein gwasanaethau yn cael yr effaith fwyaf ar fywydau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Nhorfaen.

Weithiau mae'n anodd mesur y canlyniadau sy'n deillio o'n gwasanaethau, yn enwedig os na fydd y manteision yn amlwg am nifer o flynyddoedd. Rydym yn parhau i ddyfeisio mesurau perfformiad mwy effeithiol i ddangos a yw pobl mewn gwell sefyllfa o ganlyniad y gwasanaethau y maent yn eu derbyn gennym.

# 2. Gwelliannau yn Nhorfaen

Daeth ein Trydydd Cynllun Corfforaethol, CC3 i rym ym mis Ebrill 2016 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2016 tan fis Mawrth 2021. Yn ddogfen a arweinir gan gynghorwyr, cafodd ei datblygu ar ôl ystyried ystod helaeth o ddata a gwybodaeth; canlyniadau ein harolwg trigolion yn Awst 2015; canfyddiadau ymarfer ""dadansoddi bylchau"" yn dangos pa wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn bwysig, yn ogystal â rhai a oedd angen eu gwella; ac ymarfer ymgysylltu helaeth gyda'r cyhoedd.

Mae'n cynnwys tair blaenoriaeth, a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt gan ein cynghorwyr …

**… Torfaen Lân a Gwyrdd**

**… Codi Cyrhaeddiad Addysgol**

**… Cymorth i Drigolion Mwyaf Bregus Torfaen**

Mae'r Cynllun yn darparu gweledigaeth glir i'r Cyngor cyfan, gyda chyfres o flaenoriaethau sy'n darparu fframwaith i greu dyfodol tecach lle mae pawb yn cynnal cymunedau glanach a gwyrddach, lle mae pobl ifanc yn derbyn addysg o'r safon orau bosibl a lle mae gan bawb y cyfle i fyw bywydau iach ac annibynnol waeth pwy ydyn nhw neu ble y maen nhw'n byw.

Wrth bennu ein blaenoriaethau, fe wnaethom hefyd gytuno ar gyfres o ddatganiadau ategol sy'n disgrifio'r hyn yr ydym yn bwriadu ei gyflawni ar gyfer dinasyddion; cynllunio i gefnogi dinasyddion i gyflawni; a'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl i drigolion wneud drostynt eu hunain i helpu i yrru cynnydd yn yr ardaloedd hyn.

Mae'r datganiadau hyn yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn derbyn ac yn deall nad ydym bob amser yn y sefyllfa orau i arwain ar gyflawni gwelliannau. Maent yn egluro ein bwriad yn glir i addasu'r ffordd yr ydym yn cydweithio gyda chymunedau lleol i greu dyfodol gwell, mwy cyfartal a chynaliadwy i Dorfaen.

# 3. Amcanion Gwella

## ➢ Ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2019/20:

Mae'n ofynnol i ni gyhoeddi amcanion gwella blynyddol, gan nodi sut rydym yn bwriadu canolbwyntio ein hymdrechion ar y pethau cywir a gwella'r meysydd sydd o'r pwys mwyaf i ddinasyddion Torfaen.

Mae'r 3 blaenoriaeth yn ein cynllun corfforaethol yn cynnig fframwaith naturiol ar gyfer gosod a chyflawni ein hamcanion gwella, pob un â'r bwriad clir o:

- Ddiffinio ein cyfeiriad yn y dyfodol, gan ddatgan yn glir yr hyn yr ydym yn disgwyl ei gyflawni;
- Hwyluso cynllunio ein gwasanaethau a'n gweithgareddau mewn ffordd gydlynol;
- Darparu cefnogaeth am benderfyniadau effeithiol;
- Galluogi ein hadnoddau i gael eu dyrannu'n effeithlon;
- Darparu ffordd o fesur a monitro ein cynnydd;
- Cymell a llywio ein gweithwyr yn y gwaith y maent yn ei wneud; a
- Sicrhau ein bod yn gweithio mewn modd cynaliadwy i wella lles yn Nhorfaen.

Felly, fe wnaeth ein hamcanion ar gyfer 2019/20 a gyhoeddwyd yn ein cynllun gwella blynyddol ddeillio'n uniongyrchol o'n Cynllun Corfforaethol ...

**Amcan Gwella 1 … Torfaen Sy'n Lân ac yn Wyrdd**

Ein Gweledigaeth… Cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion ymfalchïo ynddo.

**Amcan Gwella 2 … Codi Cyrhaeddiad Addysgol**

Ein Gweledigaeth … Mae ein holl bobl ifanc yn cael y cyfle gorau posibl mewn bywyd trwy gael addysg o safon dda.

**Amcan Gwella 3 … Cefnogaeth i'r Trigolion Mwyaf Bregus yn Nhorfaen**

Ein Gweledigaeth – Cymuned iachach lle mae'r bobl fwyaf bregus yn cael y cymorth i fyw bywydau iach, annibynnol, lle mae'r cyngor ac asiantaethau eraill yn gweithio i atal dioddefaint a chaledi a lleihau anghydraddoldeb.

Adlewyrchwyd y ffocws hwn yn ein cyllideb y cytunwyd arni ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20, gyda'r gweithgareddau cysylltiedig wedi'u nodi yn ein cynlluniau gwasanaeth.

Cynhaliodd ein Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau a Materion Trawsbynciol sesiwn gweithdy craffu dros ddau ddiwrnod ym mis Ionawr 2019. Rhoddodd y sesiwn gyfle i aelodau'r pwyllgor craffu graffu ar y gweithgareddau gwella arfaethedig a nodwyd o dan dri maes blaenoriaeth y cynllun corfforaethol, cyn eu cynnwys a'u cyhoeddi yng Nghynllun Gwella'r Cyngor ar gyfer 2019/20. Ar yr un pryd, ystyriodd yr aelodau'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r arbedion yr oedd angen eu gwneud.

Yn dilyn y newid mewnol hwn, fe wnaeth y Cyngor llawn gytuno ar gynllun statudol fyddai'n cael ei gyhoeddi, gan nodi'r gweithgareddau, targedau a mesurau allweddol y bydd ein meysydd gwasanaeth yn mynd ati i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn nesaf i yrru gwelliannau yn y meysydd sy'n flaenoriaeth i ni.

Trwy fonitro ein cyllidebau a'n cynlluniau gwasanaeth yn effeithiol rydym wedi paratoi'r asesiad hwn o'n cynnydd yn ystod y flwyddyn ariannol 2019/20 ochr yn ochr â'n gweithgareddau gwella arfaethedig.

## ➢ Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21:

O ran y flwyddyn ariannol gyfredol, rydym yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar y pethau cywir i wella'r meysydd sydd o'r pwys mwyaf i ddinasyddion yn Nhorfaen. Felly mae ein hamcanion gwella blynyddol yn parhau i ddeillio'n uniongyrchol o'n Cynllun Corfforaethol.

Cafodd ein hamcanion gwella ar gyfer 2020/21 eu mabwysiadu gan y cyngor llawn ym mis Mawrth 2020 a hynny'n rhan o'n Datganiad Lles 2020/21.

## 4. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

O ddechrau 2017/18, roedd hi'n ofynnol i ni gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLlCD) 2015. Mae'r Ddeddf hon yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn gosod nifer o amcanion lles trwy gyhoeddi Datganiad Lles yn flynyddol. O ystyried bod y gofyniad i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, y teimlad oedd ei fod yn bwysig dangos cysylltiadau cryf rhwng ein hamcanion gwella a'n hamcanion lles.

Yn ystod y 2 flynedd gyntaf o osod amcanion lles i gydymffurfio â deddf LlCD, bu ein ffocws ar ddatblygu a phrofi ein dull gweithredu gyda phrosiectau allweddol o oedd wedi'u cynllunio i gyflawni blaenoriaethau ein cynllun corfforaethol. Mae'r prosiectau hyn yn sylweddol ac yn debygol o ddatblygu dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, daeth yn amlwg i ni na allwn barhau i ychwanegu mwy a mwy o brosiectau at restr gynyddol o amcanion lles.

Yn ein datganiad Lles 2019/20 gwnaethom gynnal ymarfer, sef edrych ar 3 blaenoriaeth yn ein cynllun corfforaethol ein hunain, gan ddadansoddi ac adolygu a ydynt dal i fod yn berthnasol ar gyfer 2019-20 wrth barhau i gefnogi dyheadau cyffredinol y BGC. Er mwyn ein helpu i benderfynu ai ein hamcanion lles yw'r rhai cywir rydym wedi edrych ar Gynllun Asesu a Chynllun Llesiant y BGC. Fe roddodd hyn wybodaeth i ni am yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu ein cymunedau nawr ac yn y dyfodol a sut mae cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i wella llesiant.

Dywedodd ein hadolygiad wrthym fod ein blaenoriaethau presennol (a'n Hamcanion Gwella) yn parhau i fod yn berthnasol ac y dylent fod yn sail i ddull diwygiedig o osod ein hamcanion Lles thematig. Bydd ein dull newydd yn dal croestoriad mwy o'n gweithgaredd o dan ein hamcanion llesiant. Felly, yn y dyfodol, bydd adrodd ar ein hamcanion yn dangos gweithgaredd mwy eang o ran gwella lles pobl yn Nhorfaen trwy fabwysiadu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Mae'r gweithgareddau allweddol sy'n gysylltiedig â chyflawni ein hamcanion gwella a lles a ddetholwyd gennym wedi eu nodi yn ein Datganiad Lles 2019/20. Mae'r rhain yn cydnabod ac yn dangos ein hymrwymiad i gyflawni gwelliannau parhaus yn y meysydd sy'n flaenoriaeth i ni.

Cyhoeddwyd ein Hadroddiad Lles blynyddol statudol cyntaf ym mis Mawrth 2019 (wedi ei gynnwys yn ein Datganiad Lles 2019/20), a oedd yn cynnwys y diweddaraf am ein cynnydd o gymharu â'n hamcanion lles.

### ➢ Ein hamcanion lles ar gyfer 2020/21

Fel y nodwyd uchod, cafodd ein hamcanion llesiant eu hadolygu'n llawn yn ystod y flwyddyn flaenorol. Rydym felly o'r farn bod ein blaenoriaethau presennol (a'n Hamcanion Gwella) yn parhau i fod yn berthnasol a dylid eu cadw fel ein hamcanion Lles thematig ar gyfer 2020-21, gan gasglu croestoriad mwy o'r hyn rydym yn ei wneud i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Serch hynny, daw ein Cynllun Corfforaethol presennol i ben ym Mawrth 2021 a bydd angen felly i ni adolygu'n blaenoriaethau unwaith eto yn y flwyddyn sydd i ddod.

## 5. Gweithio mewn Partneriaeth

Mae ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth yn parhau'n gryf ac rydym yn parhau i arwain ar hwyluso a gweinyddu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen (BGC). Mae'r BGC yn adeiladu ar drefniadau partneriaeth cadarn blaenorol a chyfredol gyda'r pedwar partner statudol (sydd yn ein cynnwys ni, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru) ynghyd â phartneriaid. Gellir gweld y rhestr lawn o aelodau ar www.Torfaenpublicservicesboard.co.uk

Gan ddefnyddio Asesiad Lles yn Nhorfaen (a gyhoeddwyd ym Mai 2017) datblygodd a chyhoeddodd BGC Torfaen ei Gynllun Llesiant cyntaf i Dorfaen ym Mai 2018. Mae saith amcan lles lleol yn rhan o'r strategaeth

hirdymor hon, sy'n ceisio newid dros genedlaethau. Mae gweithgaredd cynnar wedi bod yn seiliedig ar archwilio ac ymgysylltu'n ddyfnach â chymunedau, sicrhau cyllid ar gyfer rhai meysydd gwaith a meithrin perthnasoedd newydd i sicrhau bod pawb sy'n gallu cyfrannu yn rhan annatod.

Mae manylion llawn y cynnydd i'w gweld yn yr Adroddiad Blynyddol cyntaf.

Mae ein datganiadau lles blynyddol a'n cynlluniau gwella bellach yn adlewyrchu ein cyfraniad at gyflawni'r gwaith partneriaeth a, lle bynnag y bo modd, rydym yn gwneud cysylltiadau rhwng ein gweithgareddau corfforaethol a gweithgareddau partneriaeth e.e. adolygu ein fflyd a chyfleoedd i symud tuag at gerbydau trydan, yr adolygiad ar wefru cerbydau trydan a sicrhau cyllid OLEV i gefnogi seilwaith gwefru.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr yn y trydydd sector ac mewn ymateb i COVID-19 rydym wedi creu'r Grŵp Prosiect Diwygio Lles sy'n cydlynu gwasanaethau cymorth lleol i fod yn barod am anghenion ychwanegol.

## ➢ Ein gweithgarwch ar y cyd yn ystod 2020/21

Yn ogystal â gweithio gyda'r holl wasanaethau cyhoeddus yn Nhorfaen i gynllunio a darparu gwasanaethau integredig ar draws y Fwrdeistref Sirol, rydym wedi parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i sefydlu gwasanaethau cydweithredol a rennir.

Rydym yn defnyddio'r ffordd hon o weithio fel ffordd o wella gwasanaethau i ddinasyddion a chymunedau, lleihau ein costau a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar ein cyfer, i'r eithaf.

Ar hyn o bryd, rydym yn cymryd rhan mewn chwech o weithgareddau cydweithio sylweddol:

- Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA)
- Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau a Rennir
- Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid
- Gwasanaeth Mabwysiadu De Ddwyrain Cymru
- Rhaglen Eiddilwch Gwent
- Gwasanaeth TGCh y Gwasanaeth Rhannu Adnoddau (GRhA)

Mae adroddiadau sylweddol a ddaeth i law yn y flwyddyn flaenorol, sy'n gysylltiedig â'n partneriaethau allweddol, wedi eu nodi isod…

i. Cynllun Busnes y GCA (craffu)
ii. Cynllun Busnes y GCA (Cabinet)

# 6. Ein perfformiad yn ystod 2019/20

Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn gofyn i ni adrodd ar fanylion penodol am ein cynnydd a'n perfformiad yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Maent yn cynnwys:-

- Ein Cynllun Gwella ar gyfer 2019/20;
- Y gyllideb y cytunom arni ar gyfer 2019/20;
- Ein perfformiad o gymharu â'r mesurau atebolrwydd cyhoeddus a gesglir gan bob awdurdod lleol yng Nghymru; ac
- Unrhyw archwiliad allanol ac adroddiadau rheoleiddio yr ydym wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn.

Mae manylion y cynnydd a wnaed a'r gweithgareddau yr ydym wedi eu cyflawni yn y meysydd hyn, wedi eu nodi yn yr adrannau a ganlyn.

## ➢ Amcanion 2019/20 (ein cynllun gwella)

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ein holl weithgareddau a'n mesurau wedi'u cwblhau ac adroddwyd yn eu cylch trwy gydol y flwyddyn trwy ein prosesau cynllunio gwasanaethau.

Trwy ystyried ein cynnydd a'n perfformiad, rydym wedi gallu darparu asesiad byr ar gyfer pob gweithgaredd, ac egluro unrhyw dargedau a fethwyd neu berfformiad sy'n dirywio. Ar y cyd, mae hyn yn rhoi trosolwg o'n cynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau ein cynllun corfforaethol.

Ar y cyfan, rydym wedi gwneud cynnydd o ran cyflawni pob un o'n hamcanion gwella.

Rydym wedi nodi lle na chafodd ein disgwyliadau eu bodloni a thrwy ein prosesau cynllunio gwasanaeth, datblygwyd camau gweithredu i wella ein perfformiad yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae diweddariad mwy manwl o'n cynnydd yn y tri amcan gwella sy'n cynnwys ein Cynllun Gwella ar gyfer 2019/20, wedi ei nodi yn **Atodiad 1 i 3** yn yr adroddiad hwn.

## ➢ Costau ein Gwasanaethau (ein cyllideb yn 2019/20)

### Ein Cyllideb Refeniw

Mae ein perfformiad ariannol ar gyfer 2019/20 wedi ei gynnwys yn ein Datganiad Cyfrifon.

Cymeradwywyd cyllideb 2019/20 ym mis Mawrth 2019 gyda chyllideb refeniw gros o £267 miliwn, a ariannwyd o £90 miliwn o grantiau penodol gan y llywodraeth a ffioedd a thaliadau am wasanaethau. Ariannwyd y gyllideb net o £177 miliwn gan £133 miliwn o gyllid heb ei neilltuo gan Lywodraeth Cymru a £44 miliwn gan Dreth y Cyngor. Cynhyrchodd ein sefyllfa alldro danwariant ar ein cyllideb refeniw o £20,000.

O fewn ein hamrywiant lleiaf yn gyffredinol (gorwariant o £20,000), bu gorwariant sylweddol yn y maes y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol a Thai ( £1.9 miliwn net); y gellir ei briodoli i'r galw cynyddol barhaus ar gyllideb lleoliadau Gofal Cymdeithasol i Blant a gorwariant net o £144,000 ar draws y maes Gwasanaethau Cymdogaeth ehangach.

Wrth ddarparu ein gwasanaethau o ddydd i ddydd fe wnaethom fynd i gostau yn ystod 2019/20 yn y meysydd canlynol:

- Costau cyflogai £128.9 miliwn,
- Costau cynnal o £141.2 miliwn a
- Chostau cyfalaf o £10.7 miliwn.

I ariannu'r costau hyn fe wnaethom dderbyn:

- £40.8 miliwn o ffioedd, taliadau ac incwm arall
- £44.3 miliwn o dreth y cyngor a,
- £194.5 miliwn o grantiau gan y Llywodraeth

Yn ystod y flwyddyn ariannol, ategwyd at y gyllideb refeniw gymeradwy, diolch i nifer o gymeradwyaethau gan y Gronfa Gyffredinol ( (£556,000).

### Ein Cyllideb Cyfalaf

Yn ogystal â'n gwariant refeniw, fe wnaethom hefyd wario £34.8 miliwn ar ein hasedau.

Roedd ein rhaglen gyfalaf 2019/20 yn cynnwys gwario ar ysgolion, ffyrdd a llwybrau troed, a chynnal a datblygu ein hadeiladau. Fe wnaethom barhau i weithredu ein Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a oedd yn cynnwys,

- cychwyn gwaith dylunio yn ysgol gynradd newydd Croesyceiliog; a'r
- Coleg Ôl-16 cyfunol newydd.

Ffynonellau ariannu ein gwariant cyfalaf yn 2019/20 oedd:

- £2.7 miliwn o fenthyciad a gymeradwywyd gan y Llywodraeth,
- £7.6 miliwn yn dilyn benthyca darbodus,
- £19.8 miliwn o grantiau penodol/cyfraniadau eraill a ddaeth i law, a
- £4.7 miliwn mewn derbyniadau cyfalaf.

Ni dderbyniwyd derbyniadau cyfalaf sylweddol yn 2019/20 Roedd yr holl dderbyniadau newydd a dderbyniwyd yn gwneud cyfanswm o £0.3 miliwn.

Rydym yn parhau i ddiogelu'r holl dderbyniadau cyfalaf i gefnogi ein rhaglen datblygu Ysgolion yr 21ain . Ganrif

## ➢ Ein perfformiad o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru

Mae Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yn cynnwys cyfres fach o ddangosyddion "sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau" a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Maent yn adlewyrchu'r agweddau hynny ar waith awdurdodau lleol sy'n cael eu hystyried yn bwysig o ran atebolrwydd cyhoeddus. Er enghraifft, ailgylchu, cyrhaeddiad addysgol, datblygu cynaliadwy. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu, adroddir yn eu chylch yn genedlaethol, a'i dilysu a'i chyhoeddi'n flynyddol.

Fodd bynnag, ar gyfer 2019/20 fe wnaeth Uned Ddata Cymru atal rhag casglu'r mesurau perfformiad hyn. Felly, ni fedrwn gymharu ein perfformiad yr adroddir ag awdurdodau eraill yng Nghymru yn 2019/20.

Rydym yn parhau i gasglu ac adrodd ynghylch y mesurau hyn yn lleol. Mae crynodeb lawn o'r holl ddangosyddion, ynghyd â chyfeiriad ein taith o ran pob dangosydd, yn ymddangos yn **Atodiad 4** yn yr adroddiad hwn.

Lle mae ein perfformiad wedi dirywio, rydym yn gweithio'n galed i ddeall y rhesymau dros ein gostyngiad mewn perfformiad er mwyn i ni allu ceisio gwella, os yn bosibl, yn ystod y flwyddyn gyfredol.

## ➢ Gwaith rheoleiddio ac arolygu allanol

Yn ystod 2019/20 roeddem yn destun nifer o adolygiadau gan ein rheolyddion allanol gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

Rydym wedi croesawu canfyddiadau'r arolygiadau hyn ac rydym yn gweithio mewn partneriaeth gydag ein rheolyddion i roi camau ar waith i gyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen yn y gwasanaethau.

### Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2019/20

Oherwydd effaith pandemig Covid-19 nid ydym wedi derbyn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Derbynnir hwn nawr ym mis Ionawr 2021. Mae'r ddogfen yn crynhoi canfyddiadau'r holl weithgareddau gwella yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

Mae'r adroddiad yn gyfuniad o gynigion gwella, rydym wedi eu derbyn trwy amrywiol adroddiadau archwilio gan ein harchwilwyr allanol. Mae'r cynigion hyn i greu gwelliannau, ynghyd â'n camau gweithredu i fynd i'r afael â hwy wedi'u hychwanegu at ein Cynllun Gweithredu ar gyfer Llywodraethu a Gwella. Mae'r cynllun hwn yn cael ei fonitro gan ein Pwyllgor Archwilio bob chwe mis.

Mae'r canlynol yn crynhoi canfyddiadau ac argymhellion archwilio allweddol a dderbyniwyd ers cyhoeddi ein Hadroddiad Gwella Blynyddol diwethaf:

### Archwiliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) - datblygu cynnig lles i bob plentyn a pherson ifanc, cam y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant

Yn ystod yr astudiaeth, aeth SAC ati i archwilio i ba raddau yr ydym wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu cynnig lles i bob plentyn a pherson ifanc.

Daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad er bod partneriaid allweddol yn amlwg wedi ymrwymo, nid ydym yn ystyried yn llawn yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei gynnig lles ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc. Daethpwyd i'r casgliad yn benodol:

- Er bod partneriaid allweddol yn amlwg wedi ymrwymo, nid ydym yn ystyried yn llawn yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu ei gynnig lles ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc.
- Gallwn ddangos ei fod yn integreiddio ei waith â phartneriaid allweddol
- Rydym yn cydweithredu'n dda â rhai partneriaid i ddatblygu'r cynnig lles, a gallai ymgysylltu ag ystod lawnach o bartneriaid gynyddu ei effaith,
- Mae gennym ymrwymiad cryf i gynnwys partneriaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn natblygiad y cynnig lles. Fodd bynnag, nid yw plant a phobl ifanc wedi cymryd rhan eto,
- Nid ydym wedi mynegi'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer ei gynnig lles yn glir ac nid ydym eto wedi datblygu cynllun cyflawni clir ar gyfer y tymor hir
- Nid ydym eto wedi nodi'r buddion ataliol o ran cyflawni ei gynnig lles.

Ni wnaeth SAC unrhyw gynigion/argymhellion i greu gwelliannau yn ei adroddiad archwilio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) ond tynnodd sylw at rai meysydd datblygu y byddwn yn gweithredu arnynt.

## Iechyd yr Amgylchedd

Fe wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru gyflawni adolygiad dilynol o astudiaeth genedlaethol flaenorol a gwblhawyd ym mis Hydref 2014. Gwnaeth yr adroddiad gwreiddiol 6 argymhelliad, a chyfeiriwyd 4 ohonynt at Gynghorau yng Nghymru i fynd i'r afael â hwy. Canfu'r astudiaeth ddilynol ein bod wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â 3 o'r argymhellion, ond dylem barhau i fynd i'r afael â'r argymhelliad sy'n ymwneud â gwelliannau mewn cynllunio strategol ar gyfer y gwasanaeth. Gwnaeth yr adolygiad 4 cynnig i greu gwelliannau:

1. Dylem ystyried sut i wella ymgynghori â thrigolion lleol ar newidiadau arfaethedig i wasanaeth iechyd yr amgylchedd.

2. Wrth ystyried sut y gallai fod angen i wasanaethau iechyd yr amgylchedd newid yn y dyfodol, dylem sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn deall ac yn dogfennu'r gwahaniaeth rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol. Bydd hyn yn ein helpu i flaenoriaethu ein cyfrifoldebau a'n pwerau yn briodol.

3. Dylem sicrhau ein bod wedi asesu'n llawn sut y gallai tynnu'n ôl o'r trefniadau gweithio ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent effeithio ar gynaliadwyedd ariannol a gweithredol gwasanaeth iechyd yr amgylchedd. Mae angen i ni hefyd ystyried sut y byddwn yn ymateb i'r angen parhaus i gyfrannu at her gyllideb y Cyngor a chyflwyno deddfwriaeth newydd.

4. Dylem barhau i fynd i'r afael ag argymhelliad 5 trwy: gwella'r defnydd o ddata, y galw / angen; dadansoddi'r gost, y budd a'r effaith i lywio penderfyniadau; ac adolygu sut y gallai gwybodaeth a thechnoleg ddigidol ddatblygu gwasanaeth iechyd yr amgylchedd.

## Diogelu Corfforaethol

Fe wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru gyflawni adolygiad dilynol o astudiaeth ddiogelu flaenorol a gwblhawyd yn 2014. Fe wnaethant ddarganfod ein bod wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'n hargymhellion blaenorol ond bod angen i ni sicrhau goruchwyliaeth a sicrwydd mwy cydlynol. Rydym yn ystyried bod diogelu yn faes pwysig o'n gweithgaredd corfforaethol ac rydym yn datblygu dull corfforaethol cyson a chydlynol o ddiogelu plant. Rydym wedi gweithredu i fynd i'r afael â'n holl argymhellion blaenorol ond amlygodd yr adroddiad nad aethpwyd i'r afael yn llawn â 4 o'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad gwreiddiol:

1. Atgyfnerthu recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:
   - sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a'u cydymffurfiad â pholisïau recriwtio diogel yn cwmpasu'r holl wasanaethau sy'n dod i gysylltiad â phlant;
   - creu system cydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau DBS; a
   - gofyn am arferion recriwtio diogel ymhlith partneriaid yn y trydydd sector ac ar gyfer gwirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynir a / neu a ddefnyddir gan y cyngor sy'n sail i gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth.

2. Sicrhau bod yr holl staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:
   - sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol ac yn cael ei ymestyn i bob holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys yn safonol ar raglenni ymsefydlu;
   - creu system gorfforaethol gyfan i nodi, olrhain a monitro cydymffurfiad wrth fynychu hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a
   - galw ar y staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid sydd wedi'u comisiynu i weithio i'r cyngor i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc gwblhau hyfforddiant diogelu.

3. Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy riportio materion diogelu yn rheolaidd a rhoi sicrwydd i bwyllgor(au) craffu yn erbyn cyfres gytbwys o wybodaeth am berfformiad ar draws y cyngor sy'n ymwneud â:
   - meincnodi a chymharu ag eraill;
   - casgliadau adolygiadau archwilio / arolygu mewnol ac allanol;
   - data perfformiad yn seiliedig ar wasanaeth;
   - data allweddol o ran personél fel hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a
   - perfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor.

4. Sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu yn cael eu hystyried ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y Cyngor.

## Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol

Nod y prosiect oedd asesu cynaliadwyedd sefyllfa'r cyngor yn y tymor byr i ganolig. Yn gyffredinol, canfu Swyddfa Archwilio Cymru: Er gwaethaf setliad uwch na'r disgwyl, mae ein sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn heriol, ac mae ein cronfeydd wrth gefn sydd â hanes o fod yn lefel isel yn golygu bod yn rhaid i ni gyflawni ein targedau gwariant ac arbedion i sicrhau ein bod yn cynnal cynaliadwyedd ariannol. Daethpwyd i'r casgliad hwn oherwydd:

- mae gennym llai o her o ran pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2020-21 diolch i setliad gwell gan Lywodraeth Cymru, ac mae ei strategaeth ar gyfer y dyfodol yn dibynnu ar arbedion o'i rhaglen drawsnewid, sy'n cael ei chwblhau ar hyn o bryd;
- yn ystod y blynyddoedd diwethaf, llwyddwyd i wrthbwyso gorwariant mewn rhai meysydd gwasanaeth diolch i danwariant mewn meysydd eraill, cytuno ar ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a ffawdelwau 'un tro';
- dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi cyflwyno bron i 80% o'n arbedion a gynlluniwyd, fodd bynnag, roedd angen i ni ddatblygu arbedion amgen i dalu am y diffyg o £3 miliwn;
- rydym bob amser wedi cael lefel gymharol isel o gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ond mae'r rhain wedi bod yn gostwng yn gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac, er y rhagwelir y byddant yn lleihau ymhellach erbyn 2020-21, rydym yn cydnabod nad yw hyn yn gynaliadwy;
- er bod Treth y Cyngor yn ffynhonnell incwm gynyddol bwysig i ni, mae'r gyfradd casglu yn ystod y flwyddyn ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cynghorau Cymru; a
- mae ein lefel gyffredinol o fenthyca wedi aros yn sefydlog dros y tair blynedd diwethaf.

## Astudiaethau Cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru

Adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd ar nifer o astudiaethau cenedlaethol yn ystod 2019/20. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys argymhellion i bob awdurdod lleol yng Nghymru yn ogystal â chyrff cyhoeddus eraill, fel Llywodraeth Cymru. Mae rhestr o'r adroddiadau cenedlaethol hyn wedi'i chynnwys isod. Gellir gweld mwy o fanylion trwy ddilyn y dolenni:

i. Y Drws Blaen i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion
ii. Adolygu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
iii. Cynnydd wrth weithredu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
iv. Felly, beth sy'n wahanol? Canfyddiadau o Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Archwilydd Cyffredinol
v. Cysgu ar y Strydoedd yng Nghymru - Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb
vi. 'Gwella ein Perfformiad' - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru

## 7. Boddhad y cyhoedd ac ymgysylltu â dinasyddion

Rydym yn croesawu adborth gan ein trigolion a cheisiwn ei gwneud mor hawdd â phosib i bobl ddweud eu barn wrthym. Yn 2019/20 fe wnaeth ein defnydd o gyfryngau ar-lein, cyfryngau digidol a chyfryngu cymdeithasol barhau i ehangu ar draws ein holl feysydd gwasanaeth i gynulleidfa gynyddol. Mae ein e-fwletin newyddion wythnosol a ddarperir trwy ein gwasanaeth cyfathrebu digidol 'Cadw'r Cyswllt' yn darparu ystod eang o fwletinau i drigolion, partneriaid a staff.

Mae ein gwasanaeth 'Cadw'r Cyswllt' yn caniatáu i ddinasyddion sydd wedi cofrestru, dderbyn gwybodaeth ragweithiol awtomataidd ar ffurf e-bost, SMS a chyfryngau cymdeithasol, a hynny ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaeth neu wybodaeth sy'n berthnasol i'w lleoliad neu eu diddordebau. Mae ein gwasanaeth wedi datblygu i fod yn sianel gyfathrebu dorfol allweddol gyda thrigolion yn cofrestru i dderbyn bwletinau wythnosol a gwybodaeth fwy penodol ar bynciau fel swyddi, gwastraff ac ailgylchu, beth sydd ymlaen, newyddion am ysgolion ac unrhyw aflonyddu ar wasanaethau mewn tywydd garw. Mae bwletinau yn rhoi gwybodaeth gyhoeddus statudol a newyddion i drigolion am fentrau corfforaethol o flaenoriaeth, ein gwasanaethau a pherfformiad, ymgynghoriadau a digwyddiadau, cyfarfodydd allweddol a phenderfyniadau fel newidiadau i wasanaethau a newyddion gan bartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus lleol.

Mae rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor a'i ddylanwad yn parhau i dyfu gan gyfleu negeseuon, ymgysylltu â chymunedau a rhoi'r cyfle i'r cyhoedd fynegi eu barn ar safleoedd fel Facebook, Twitter, Instagram a Youtube. Mae ein hymgysylltiad o ran cyfryngau cymdeithasol yn parhau i fod yn uchel yng Nghymru. Mae ein gwefan ymatebol yn parhau i gynyddu nifer yr opsiynau hunanwasanaeth 'gofyn amdano', 'rhoi gwybod amdano' neu 'talu amdano' a gwnaed gwelliannau i brofiadau'r sawl sy'n defnyddio'r porth cwsmeriaid ar-lein.

Rydym hefyd wedi parhau i ddefnyddio ein gwefan ymgynghori, 'Cymryd Rhan' i alluogi dinasyddion a phobl ifanc i gael y cyfle i ddweud wrthym am eu profiadau a'r hyn y maent yn ei ddisgwyl gan wasanaethau cyhoeddus lleol. Mae'r safle yn cynnwys ymgynghoriadau cyfredol a rhai sydd ar ddod, yn ogystal â'r ymatebion a ddaeth i law mewn ymgynghoriadau blaenorol.

Rydym hefyd wedi defnyddio'r offeryn Deialog i gynnwys pobl mewn sgyrsiau. Rydym yn gwybod nad ydym bob amser yn cael yr atebion i lawer o'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau heddiw a'r unig ffordd y gellir mynd i'r afael â hwy yw pan fydd pawb yn gweithio fel un, rhannu syniadau, barn a heriau fel un gymuned. Yn dwyn y teitl Torfaen Ynghyd, dyma ofod ar-lein lle gallwn ni gynnwys pobl mewn gwirionedd, gan rannu a thrafod syniadau am y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae trigolion yn cymryd rhan ar y llwyfan hwn drwy bori drwy'r heriau, gyflwyno eu syniadau eu hunain neu wneud sylwadau ar syniadau a graddio syniadau pobl eraill.

Mae ein Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn parhau i ddefnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â'r cyhoedd cyn eu cyfarfodydd craffu, fel bod modd ystyried ystod eang o safbwyntiau a barn fel rhan o'u gweithgarwch craffu. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn parhau i ddefnyddio'i barth Twitter ei hun i gyfleu eitemau fydd yn dod.

Parhaodd 'Fforwm Pobl Ifanc Torfaen' i gyfarfod yn fisol i sicrhau bod llais gan bobl ifanc yn ein penderfyniadau. Bob blwyddyn mae'r fforwm ieuenctid yn hwyluso'r bleidlais 'Gwneud Eich Marc' rhwng Awst a Hydref ac mae panel ein pobl yn parhau i gael ei gynnwys ar yr holl weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn cynnwys ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru. Mae aelodau'r panel yn cymryd rhan yn y broses graffu trwy gyflwyno cwestiynau i'r panel a rhoi eu barn ar eitemau craffu.

Mae cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r pwyllgorau yn cael eu darlledu ar y we, gan hyrwyddo natur agored, dryloyw ac atebol wrth wneud penderfyniadau.

## 8 Herio ein perfformiad

Yn ystod 2019/20, fe wnaeth ein Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu barhau i chwarae rôl hanfodol o ran dal ein Cabinet sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, datblygu polisïau lleol, herio ein polisïau cyfredol ac adolygu'r perfformiad cyfredol i sbarduno gwella gwasanaethau. Mae mwy a mwy o bobl yn cymryd rhan yn ein gwaith trosolwg a chraffu sydd yn helpu i lunio'r argymhellion sy'n cael eu gwneud.

Fe wnaeth ein Pwyllgor Archwilio barhau i sicrhau bod trefniadau rheoli corfforaethol yn ddigon cadarn ac mae wedi chwarae rôl hanfodol o ran sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw argymhellion a wnaed gan ein harolygwyr allanol, yn rhan o'u hamserlen rheoleiddio, mewn modd amserol.

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi bod wrthi yn adolygu ein;

- Prosesau a ddefnyddiwn i adolygu gwybodaeth am berfformiad y sefydliad. Pwrpas yr adolygiad hwn yw penderfynu ar y ffordd orau i adolygu perfformiad a chynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, iechyd sefydliadol a phrosiectau eraill o bwysigrwydd strategol, a
- Y system yr ydym yn ei defnyddio i gofnodi ac adrodd ar wybodaeth rheoli perfformiad y cyngor ar ôl rhoi'r gorau i'n system rheoli perfformiad bresennol (Ffynnon).

Bydd y ddau adolygiad yn gorffen mewn pryd i'w lansio yn yr hydref 2020. Mae'r Aelod Gweithredol dros Wella Perfformiad a Rheoli Corfforaethol yn parhau i chwarae rhan hanfodol, gan sicrhau ein bod yn cyflawni gwelliannau yn y meysydd y dywedasom y byddem yn gwneud.

## 9. Ymateb i'r Pandemig Byd-eang

Erbyn diwedd 2019-20 fel pob person, gwasanaeth a busnes arall, roeddem yn gwneud ati i fynd i'r afael â goblygiadau'r cyfnod clo cenedlaethol o ganlyniad i bandemig byd-eang Covid 19. O ganlyniad, fel pob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus arall gwnaethom ymateb i sicrhau ein bod yn parhau i flaenoriaethu gwasanaethau sy'n diogelu ein trigolion mwyaf bregus a diogelu'r amgylchedd.

Mae ein cynlluniau brys yn cael eu cwblhau ar lefel Gwent gyfan, sy'n cyd-fynd â ffiniau Heddlu Gwent a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Er mwyn cefnogi Polisi cenedlaethol a pholisi Llywodraeth Cymru, a ganolbwyntiodd i ddechrau ar y neges allweddol i "Aros Gartref - Diogelu'r GIG", symudodd Gwent tuag at datgan argyfwng yn gyflym o fewn diffiniadau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, gan sefydlu a chyfrannu at strwythurau lleol a rhanbarthol i gefnogi amddiffyniad dinesig a sefydlu fframwaith o rolau a chyfrifoldebau ar gyfer ymatebwyr lleol. Bydd ein gwaith yn parhau drwy'r cyfnod ymateb a'r cyfnod adfer.

Mae ein gweithredoedd cynnar wedi galluogi mwyafrif y gwasanaethau i barhau i weithredu, ond mewn ffordd wahanol. Mae cynnydd yn nifer y pwyntiau cyswllt o bell a chyflwyno Microsoft Teams i gynnal cyfarfodydd o bell wedi chwyldroi ein ffordd o gynnal ein busnes ac wedi galluogi busnes o'r cartref i weithredu ledled y sefydliad gan gynnwys ysgolion.

Mae COVID-19 wedi golygu ein bod wedi gorfod symud ar gyflymder i ymateb i'w effaith, yn bennaf i amddiffyn ein pobl fregus yn Nhorfaen a sicrhau y darperir gwasanaethau hanfodol.

Rydym wedi cael nifer o faterion allweddol i fynd i'r afael â nhw dros yr ychydig fisoedd diwethaf, yn cynnwys:

- Staff yn gorfod gweithio o gartref a defnyddio adeiladau'r Cyngor yn ddiogel;

- Dal ati i gynnal gofal cymdeithasol ar gyfer pobl fregus iawn a darparu cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â darparu gofal personol i eraill
- Penderfyniadau ynghylch defnyddio ysgolion ar gyfer plant gweithwyr allweddol a darparu prydau ysgol am ddim;
- Cynnal y gwasanaeth casglu sbwriel mewn ffordd a oedd yn darparu mesurau diogelwch priodol i staff;
- Darparu cefnogaeth i bobl oedd yn "cysgodi" ac yn methu â gadael eu cartrefi;
- Sefydlu systemau AD i sicrhau ein bod yn gwybod pa staff oedd yn sâl neu'n hunan-ynysu a phwy y gellid eu hadleoli i ddyletswyddau eraill; a
- Gwneud trefniadau i barhau â democratiaeth trwy gyfarfodydd anghysbell.

Cawsom heriau sylweddol i'n hymateb cychwynnol ar adeg pan ostyngwyd nifer y staff yn fawr oherwydd cyngor gan y llywodraeth yn datgan bod angen i unrhyw un a oedd yn symptomatig ac a oedd ag aelod o deulu symptomatig, hunan-ynysu am 14 diwrnod. Yn ystod misoedd cyntaf y pandemig, bu staff ar bob lefel o'r sefydliad yn gweithio oriau hir am wythnosau heb seibiant, gan gynnwys ar benwythnosau. Ni ddylid tanamcangyfrif yr effaith a gafodd hyn ar egni a gwytnwch pobl

## 10. Y Flwyddyn nesaf a thu hwnt

### – Llunio ein hadferiad ...

Rydym bellach yn gwybod y bydd pandemig COVID-19 yn cael effaith sylweddol a niweidiol ar yr economi a'r ffordd yr ydym yn byw, gweithio, dysgu a chymdeithasu hyd y gellir rhagweld. Mae COVID-19 yn parhau i gyflwyno her wahanol iawn i unrhyw beth yr ydym wedi'i brofi o'r blaen. Mae hyn yn golygu bod dychwelyd i normalrwydd yn dal i fod yn bell i ffwrdd, ac yn gynyddol mae dealltwriaeth bod cam nesaf ein hymateb yn debycach o lawer i drosi i "normal" newydd a pharhaus nag ydyw i ddychwelyd i amodau cyn COVID-19.

Mae angen i ni symud o "gyfnod ymateb i gyfnod adfer" ac nid yw hon yn broses ddiffiniol na llinellol - yn ymarferol, bydd gweithgarwch yn rhedeg yr un pryd, a hynny'n seiliedig ar sefyllfaoedd lleol ar y pryd. Yn benodol, byddwn yn edrych i symud yn ôl i ffordd fwy normal o weithio, darparu cefnogaeth i fusnesau lleol ac adeiladu ar yr ymatebion cymunedol rhagorol a welsom dros gyfnod y pandemig. Felly, er bod yn rhaid i ni barhau ag agweddau ar ein hymateb, mae'n rhaid i ni hefyd fod yn glir ynghylch sut rydyn ni'n helpu i sefydlogi bywydau'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf, sut rydyn ni'n trosglwyddo i flaenoriaethau newydd a gwahanol, a phan fydd yr amodau byd-eang yn caniatáu, sut gallwn ni helpu bywyd bob dydd i adfer ac ailadeiladu.

Bydd ein cynllun adfer yn nodi'r nodau hynny a'r camau gweithredu sy'n deillio o hynny ar draws y tair elfen eang yr ydym wedi'u defnyddio ers mis Mehefin; ein sefydliadau, ein cymunedau a'n busnesau/economïau lleol.

Fe'i defnyddir i lywio ein trafodaethau, i lywio cynllunio corfforaethol, ac i sicrhau bod gweithredoedd lleol yn adlewyrchu bwriad polisi LlC, nid yn unig i feddwl o ran adferiad. Ni fydd yr economi na chymdeithas yn dychwelyd i'r arfer. Rhaid inni feddwl yn nhermau normal newydd, y mae'n rhaid i ni ei ddychmygu yn gyntaf ac yna ei greu.

### – Llunio ein hadferiad ...

Bydd y rhagolygon ariannol ar gyfer y dyfodol agos heb os, yn parhau i fod yn heriol. Hyd yn oed cyn i ni ddechrau deall effaith pandemig COVID-19, nododd ein rhagolygon ariannol ar gyfer 2021/22 i 2024/25, y bydd yn rhaid i ni nodi tua £12 miliwn o fesurau lliniaru er mwyn sicrhau bod gennym sefyllfaoedd cytbwys.

Cydnabyddir bod angen adolygu ein Cynllun Gwasanaeth ac Ariannol Tymor Canolig (MTSFP) gan ystyried y sefyllfa frys, ond ni ellir gwneud hyn tan fydd gennym sefyllfa gliriach o ran:

- Sut y bydd Llywodraeth y DU yn ariannu gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer 2021/22 a thu hwnt;
- Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu llywodraeth leol wrth symud ymlaen;

- Sut y gall unrhyw ofynion ychwanegol sy’n codi o ddelio â’r firws effeithio ar ddarparu gwasanaethau yn y blynyddoedd i ddod ’e.e. cadw pellter Cymdeithasol; a
- Adolygu blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol i ystyried y pandemig;

Er mwyn sicrhau bod ein MTSFP yn dangos sefyllfa mor gywir â phosibl, cynigir y bydd y MTSFP diwygiedig yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â phroses gyllideb 2021/22, ystyrir bod y llinell amser hon yn briodol o ystyried y wybodaeth sy'n datblygu'n barhaus ynghylch ffrydiau cyllid a chymorth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu, trwy broses hawlio, adnoddau i gefnogi awdurdodau lleol lle aethpwyd i gostau ychwanegol wrth ymateb i'r pandemig mewn cyfraniadau gan gynnwys;
- Cymorth cyffredinol,
- Digartrefedd,
- Prydau Ysgol am Ddim,
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Addysg ac ysgolion
- Profi, Olrhain a Diogelu, ac
- Incwm a gollwyd.

Heb os, ni fydd adnoddau ychwanegol yn ariannu'r holl amrywiannau, bydd y ffocws ar gostau ychwanegol / incwm a gollir o ganlyniad i COVID-19 ac efallai y bydd gofyn hefyd i ddarparu gwasanaeth well mewn rhai meysydd e.e. digartrefedd. Ni fydd yn talu costau sy'n rhan o'n cyfrifoldebau arferol e.e. methu â chyflawni'n targedau cynilo yn llawn, y pwysau arferol o ran y gyllideb a'r galw, neu ddewisiadau lleol o ran polisïau. Heb os, bydd rhai o'r pwysau hyn wedi codi trwy effaith Covid ar gapasiti gwasanaethau, ond y rhagdybiaethau ar hyn o bryd yw na allwn ddefnyddio'r adnodd newydd ac y bydd yn ofynnol i'r Cyngor reoli'r rheini ein hunain.

Wrth edrych ar fynd i'r afael â'n heriau ariannol wrth symud ymlaen, derbynnir yn gyffredinol na allwn barhau fel y mae, ac felly rydym yn edrych ar y ffordd y defnyddir adnoddau i ddarparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol. Ym mis Ebrill 2019, rhoddodd ein Cabinet sêl bendith i gychwyn ail gam ‘T22’ , sef ein rhaglen drawsnewid.

T22 yw ein rhaglen i reoli'r newidiadau mawr y mae angen i ni eu gwneud dros y pedair blynedd nesaf. Bydd newidiadau yn torri ar draws nifer o'n gwasanaethau ac yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud pethau'n wahanol a gwneud gwahanol bethau (heb fynd ati'n gyson i wella'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau ar hyn o bryd). Bydd T22 yn gwella canlyniadau i'r cyhoedd, aelodau etholedig a'n staff yn ogystal â chreu arbedion ariannol sylweddol.

Mae'r pwysau sylfaenol yn ymwneud â'r galw cynyddol, parhaus am ein gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant. Rydym wedi bod yn gweithio i adolygu a thrawsnewid y modd y darperir gwasanaethau gyda'r bwriad o gynnwys y galw trwy sicrhau effeithlonrwydd a thrwy ryddhau arbedion i ail-fuddsoddi mewn Gofal Cymdeithasol.

Rydym yn parhau i weld galw cynyddol a phwysau o ran costau, ynghyd â gostyngiad mawr mewn buddsoddiadau ac adnoddau. Os na fyddwn yn trawsnewid trwy wneud newidiadau mawr ar draws gwasanaethau yn y tymor canolig, ein hunig ddewis arall yw bod ein gwasanaethau unigol yn unig ysgwyddo'r baich cynilo trwy'r broses gyllidebol flynyddol. Byddai hyn yn creu elfen o risg i'r gwasanaethau a ddarperir, Blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol a Chynllunio Ariannol Tymor Canolig.

- **Adfer gyda'n gilydd...**

Rydym yn gweithio'n barhaus i ddatblygu ein trefniadau partneriaeth. Yn ddiweddar mae ein cydweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gyd yn y broses o gyfrannu at ansawdd bywyd gwell yn Nhorfaen. Mae pandemig byd-eang COVID-19 wedi darparu archwiliad llym o'n trefniadau partneriaeth, gan ofyn am ymateb cyflym a chydlynol.

Mae pandemig COVID-19 wedi dangos gwerth gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol i ddarparu ymateb cydgysylltiedig o ran gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn parhau i weithio ar draws ein holl bartneriaethau

i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt ond mae'n rhaid i ni nawr ganolbwyntio ar adfer gyda'n gilydd nid yn unig fel sefydliadau ar wahân ond trwy ddull integredig sy'n deall y pwysau y mae'r pandemig wedi'i roi ar yr holl bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Nhorfaen .

Wrth inni edrych tuag at ein hadferiad mae angen i ni fod yn wybodus am y camau y mae sefydliadau eraill yn eu cymryd, gan osgoi dyblygu neu fylchau, ac eto ar yr un pryd, ni allwn aros cyn i ni ddechrau gweithredu newidiadau ar draws ein sefydliad ein hunain, ein cymorth i fusnesau lleol a'n cymunedau. Mae hyn yn gryn her, o ystyried y cyflymder, y cymhlethdod a'r ansicrwydd a fydd yn parhau i fodoli am gryn amser eto.

**ATODIAD 1:**

## BLAENORIAETH EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL 3 AC AMCAN LLES A GWELLIANT 2019/20...

**… TORFAEN LÂN A GWYRDD**

### Cyfrannu at amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen …

- **Datblygu rhwydwaith swyddogaethol, wedi ei gysylltu, o ardaloedd naturiol sy’n cefnogi anghenion lles presennol ac i’r dyfodol poblogaethau lleol**
- **Datblygu ymatebion lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd**

### Cyfrannu at ein gweledigaeth Cynllun Corfforaethol 3 ar gyfer Torfaen...

**Cymunedau glanach a gwyrddach ac amgylchedd lleol cynaliadwy y gall trigolion fod yn falch ohono**

### A, chyfrannu tuag at nodau blaenoriaeth2020 ein Cynllun Corfforaethol 3 …

| Ein nodau yn 2020 ar gyfer y flaenoriaeth hon … | |
|---|---|
| Fel Cyngor, byddwn yn … | • cadw’r fwrdeistref yn lân a rhydd rhag sbwriel<br>• cynnal mannau agored ar dir ym meddiant y cyngor i safon dderbyniol a gweithio gyda thirfeddianwyr preifat a phartneriaid lleol i sicrhau hyn<br>• gweithio mewn modd cynaliadwy i sicrhau bod ein hamgylchedd lleol yn cael ei werthfawrogi a’i gynnal ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol<br>• gofyn i drigolion am eu barn ar gynnal mannau agored yn eu cymunedau<br>• erlyn y sawl a ddelir yn cyflawni troseddau amgylcheddol lle bo modd |
| Fel Cyngor, byddwn yn cefnogi … | • trigolion i weithio i wella golwg eu cymuned leol |
| Fel Cyngor, rydym yn disgwyl i drigolion … | • beidio â thaflu sbwriel, tipio'n anghyfreithlon neu adael i’w cŵn faeddu mewn mannau cyhoeddus.<br>Mae pob punt sydd angen ei gwario ar ymddygiad difeddwl a gwrthgymdeithasol fel hyn yn bunt yn llai i’w gwario ar wella’r ardal<br>• cynyddu ailgylchu, lleihau gwastraff ac adrodd am droseddau amgylcheddol |

## Mae cynnydd yn erbyn pob un o'n gweithgareddau allweddol, dulliau mesur perfformiad a thargedau a gyhoeddwyd gennym ar gyfer yr amcan gwella hwn yn 2019/20 wedi'u nodi isod …

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|
| **Gweithgaredd 1** | |
| **Datblygu fferm solar ar hen safle tirlenwi Tŷ Coch yn darparu hyd at 3.85MW o ynni solar ffoto-foltaig (PV) i gynhyrchu incwm cynaliadwy, symud tuag at economi di garbon a lleihau allyriadau carbon.** | Bydd y datblygiad arfaethedig 3.85MW yn Nhŷ Coch yn cynhyrchu rhyw 3.75 Gwh o ynni adnewyddadwy y flwyddyn a gwrthbwyso rhyw 1,312.4 tunnell o $CO_2$ o'i gymharu gyda thrydan a gynhyrchir yn gonfensiynol a dod ag incwm o ryw £50k y flwyddyn<br><br>Mae'r cynhyrchu yn cyfateb i ddefnydd 1,000 o aelwydydd y flwyddyn yn Nhorfaen, a bydd hyn yn cynorthwyo gyda'r targed yng Nghymru o gynhyrchu 70% o drydan o ffynonellau adnewyddadwy lleol erbyn 2030. |
| **Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**<br><br>Cyflwynwyd drafft o'n Achos Busnes Llawn i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Glanach ar y 26ain o Fedi 2019.<br><br>Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn ar gyfer y fferm solar ar y 18fed o Hydref 2019.<br><br>Ym mis Ionawr 2020 cytunodd y Cabinet i gefnogi'r Achos Busnes Terfynol, ar gyfer darparu fferm solar 3.04MW ar hen safle tirlenwi Tŷ Coch a rhoi cymeradwyaeth i symud ymlaen i gam nesaf y cynllun. Cymeradwyodd y Cyngor gyllid ar gyfer y prosiect ar yr 28ain o Ionawr 2020.<br><br>Wrth reswm, llwyddodd Covid i daro amserlenni gweithredu gyda swyddogion yn blaenoriaethu darparu gwasanaethau gan nad y gwanwyn oedd yr amser i gychwyn y caffael fel y cynlluniwyd. Felly bu'n rhaid i'r prosiect addasu ei amserlen i ganiatáu ar gyfer rhaglen adeiladu yn haf 2021. | |
| **Gweithgaredd 2** | |
| **Byddwn yn paratoi Polisi Mannau Agored.** | Bydd ein Polisi Mannau Agored yn ffurfio rhan o'n Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), yn cefnogi ein polisi cynllunio at y dyfodol a rhoi fframwaith strategol i ni ar gyfer datblygiad ac amddiffyniad mannau agored gwyrdd yn y dyfodol. |
| **Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**<br><br>Erbyn Hydref 2019 roedd y tasgau canlynol yn mynd rhagddynt:<br>– Creu haen GIS Seilwaith Gwyrdd ar STRATUS,<br>– Diweddaru mapio'r ardaloedd chwarae a chaeau chwaraeon, a<br>– Mae ymgynghori â grwpiau defnyddwyr yn cynnwys plant, clybiau chwaraeon a'r cyhoedd yn parhau.<br><br>Erbyn mis Mawrth 2020, cwblhawyd ein hasesiad Seilwaith Gwyrdd Drafft (ar ôl mynd drwy'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Bwrdd BGC) a oedd yn cynnwys mapio ac asesu maint, ansawdd a hygyrchedd mannau agored gan gynnwys rhandiroedd, mannau agored amwynder, parciau ffurfiol, mannau gwyrdd naturiol, coridorau gwyrdd a chaeau chwaraeon. Cynigiwyd safonau drafft ar gyfer maint, ansawdd a hygyrchedd mannau agored i'w cymeradwyo gan ein Tîm Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Y cam nesaf oedd ymgynghori a gafodd ei ohirio oherwydd Covid 19. Y bwriad yw gweithio gyda'r timau polisi/ymgynghori i adolygu pryd a sut y gellir cynnal yr ymgynghoriad.<br><br>Disgwylir i'r asesiad ansawdd ar fannau agored amwynder (a ohiriwyd yn sgil COVID-19) gael ei gwblhau erbyn mis Hydref 2020. | |

<table>
<tr><th>Ein gweithgareddau …</th><th>Yr effaith a ddisgwylir …</th></tr>
<tr><td colspan="2">Bydd cynhyrchu Map Seilwaith Gwyrdd ar gyfer Torfaen i'w ddefnyddio yn y CDLl wedi'i gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2020.<br><br>Bydd ein Polisi Mannau Agored yn cael ei osod yn y CDLl erbyn mis Rhagfyr 2020.<br><br>Yn olaf, bydd Cynlluniau Gweithredu unigol ar sail Wardiau yn cael eu cwblhau erbyn Mawrth 2021. Bydd y rhain yn awgrymu mannau agored â blaenoriaeth i'w gwella a byddant yn manylu ar y gwelliannau sy'n ofynnol ar Asedau Seilwaith Gwyrdd eraill yn y Ward. Bydd y rhain yn cael eu cwblhau mewn cysylltiad â Chynghorwyr Ward a Chymuned.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gweithgaredd 3</td></tr>
<tr><td>Byddwn yn ail-fodelu sut rydym yn cyflenwi’r gwasanaeth gwastraff trwy:<br>▪ Ddefnyddio gwirfoddolwyr yn y gwasanaeth gwastraff, a<br>▪ Lleihau defnydd o staff asiantaeth mewn gweithrediadau gwastraff.</td><td>Trwy ddefnyddio gwirfoddolwyr a gyfeirir gan ein Tîm Cyflogadwyedd medrwn roi profiad gwaith iddynt a lleihau’r angen am staff asiantaeth.<br><br>Bydd lleihau defnydd o staff asiantaeth a symud at gyflogi mwy o staff yn uniongyrchol yn lleihau costau a gwella effeithlonrwydd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…<br><br>Rydym wedi gweithio'n agos gyda'n Tîm Cyflogadwyedd i ddatblygu rhaglen hyfforddi i wirfoddolwyr weithio ar gasgliadau gwastraff. Cwblheir peth o'r hyfforddiant cyn cyrraedd yr adran wastraff ac mae'n cynnwys cyflwyniad gan y Rheolwr Gweithrediadau fel bod y gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r dyletswyddau y byddent yn eu cyflawni a'r safonau y byddai'n ddisgwyliedig ohonynt.<br><br>Hyd yma rydym wedi cymryd 12 gwirfoddolwr ac wedi rhannu'r rhain dros bythefnos gyda thri gwirfoddolwr yn y bore a thri yn y prynhawn.<br><br>Defnyddiwyd cerbyd ailgylchu pwrpasol gyda Phrif Weithiwr yn goruchwylio’r gwirfoddolwyr a rhoi adborth ynghylch perfformiad y gwirfoddolwyr.<br><br>Yna cyflogwyd un o'r gwirfoddolwyr trwy'r asiantaeth ac ers hynny mae wedi llwyddo i gae swydd llawn amser yn y Tîm Gwastraff.<br><br>Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r tîm i ddod o hyd i wirfoddolwyr addas i weithio yn nepo Tŷ Coch.<br><br>Yn ystod 2019-20 rydym wedi newid y model staffio ar gyfer y gwasanaeth ac wedi cynyddu'r nifer parhaol yn y gwasanaeth casglu gwastraff (o 70 i 93). Gwnaethom recriwtio 23 aelod o staff llawn amser arall ac mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i leihau nifer y staff asiantaeth sydd eu hangen. O ganlyniad, bu gostyngiad o 30% yn y gwariant ar staff asiantaeth yn 2019-20 o'i gymharu â 2018-19. Bydd recriwtio yn parhau yn 2020-21 i leihau'r angen i ddefnyddio asiantaeth ymhellach. Fodd bynnag, bydd y gwasanaeth yn parhau i alw am wariant ar gyfer asiantaeth i dalu am salwch ac unrhyw swyddi gwag dros dro yn y gwasanaeth.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Gweithgaredd 4</td></tr>
<tr><td>Byddwn yn datblygu achos busnes ar gyfer Gwasanaeth Gorfodi Parcio Sifil / Gorfodi Amgylcheddol ar y cyd yn fewnol yn Nhorfaen.</td><td>Ystyried yn llawn y model achos busnes ar gyfer cyd-orfodi sifil/amgylcheddol a chytuno ar y model mwyaf addas.</td></tr>
</table>

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|
| **Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**<br><br>Ystyriodd ein Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Mwy Diogel yr achos busnes dros Wasanaeth Parcio / Gorfodi Dinesig mewnol ar y cyd ym mis Ebrill 2018. Derbyniwyd adroddiad dilynol hefyd ym mis Mawrth 2019 lle amlinellwyd dau opsiwn ac fe'u cynlluniwyd i alluogi gwasanaeth mewnol ar ddewis o lefelau i ddarparu gwasanaeth. Modelwyd y ddau opsiwn o safbwynt lefel gwasanaeth a chost a gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Mwy Diogel i ystyried y cynigion a gwneud argymhellion, fel y bernir yn briodol, i'w hystyried gan y Cabinet.<br><br>Cytunodd y Cabinet i gymeradwyo cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Mewnol ar y Cyd ar gyfer Parcio Sifil ac Amgylcheddol ar y 1af o Orffennaf 2019.<br><br>Cwblhawyd ein proses statudol a dechreuodd ein gwasanaeth gorfodi amgylcheddol a pharcio deuol ar y 1 af o Orffennaf 2019.<br><br>Neilltuir cyfnod patrolio dyddiol i bob ward mewn ymgais i rannu amseroedd patrolio cyfartal i bob Ward. Yn ystod yr amseroedd hyn gellir patrolio mewn modd rhagweithiol ac adweithiol mewn ardaloedd a nodwyd trwy gudd-wybodaeth neu o fannau lle'r oedd problemau y gwyddys amdanynt yn flaenorol. Mae hyn yn caniatáu inni fynd i'r afael â materion a nodwyd trwy gudd-wybodaeth a gweithredu mewn dull mwy effeithlon wrth gynnal agwedd gytbwys tuag at batrolau.<br><br>Sicrhaodd yr arfer gwaith yn gynnar bod ein patrolau yn cynnwys ymweliadau â phob un o'r 29 ysgol leol ym Mwrdeistref y Sir ar amseroedd gollwng yn y bore a chasglu yn y prynhawn a chânt eu blaenoriaethu trwy geisiadau gwasanaeth a dderbynnir yn eu tro sy'n gysylltiedig â phatrôl pob ward sy'n gyfrifol am ardal. Bwriad yr ymweliadau hyn yw mynd i'r afael â materion parcio a sbwriel y tu allan i ysgolion ar yr oriau brig ac yn bwysicach fyth i hyrwyddo materion diogelwch ar y ffyrdd. | |
| **Gweithgaredd 5** | |
| **Byddwn yn sicrhau bod trigolion yn didoli eu gwastraff gweddillol yn y Ganolfan Gwastraff y Cartref.** | Bydd ein polisi newydd yn golygu y bydd angen mynd ag unrhyw sachau o wastraff cymysg sy'n mynd i'r Ganolfan Gwastraff y Cartref y bwriedir eu taflu yn y sgip gwastraff na ellir ei ailgylchu, i ardal ddidoli benodol. Mae didoli gwastraff yn lleihau swm y deunydd ailgylchadwy y mae angen gwaredu arno. |
| **Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**<br><br>Fe wnaethom gyflwyno didoli bagiau yn y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref ym mis Mawrth 2019. Ers cyflwyno'r angen i drigolion ddidoli eu gwastraff gweddilliol i gael gwared ar ddeunyddiau ailgylchu, mae maint y gwastraff gweddilliol ar y safle rhwng Ch1 a Ch4 wedi gostwng bron i 2/3 o gymharu â'r cyfnod tebyg yn 2018-19. Mae hyn wedi helpu i gyflawni'r perfformiad disgwyliedig o ran arbed ac ailgylchu.<br><br>Mae hyn yn gyfystyr â gostyngiad o 2,226 tunnell o wastraff gweddilliol yn 2019-20 o gymharu â 2018-19. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol o tua £200,000 y flwyddyn yn y costau gwaredu. Fe wnaeth hyn hefyd helpu i gynyddu perfformiad ailgylchu ar y safle yn sylweddol, a hefyd ar draws Torfaen. Cynyddodd perfformiad ailgylchu yn y GAGC i 86.92% yn 2019-20 (o 70.67% yn 2018-19), gan gyfrannu at ein gallu i gyflawni'r gyfradd ailgylchu statudol ar draws Torfaen o 64.4% yn 2019-20 (o 60.53% yn 2018-19) . | |
| **Gweithgaredd 6** | |

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|
| **Datblygu a chadarnhau Strategaeth Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon.** | Bydd ein strategaeth newydd yn pennu fframwaith ar gyfer dull mwy cysylltiedig i weithio tuag at leihau sbwriel a syniad gwell gan y cyhoedd o lendid yn yr ardal. |

**Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**

Paratowyd ein Strategaeth Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon Drafft fel dogfen ymgynghori gyhoeddus a'i chyhoeddi ar Hwb Ymgynghori Torfaen rhwng 15 Ionawr a 9 Chwefror 2020 https://getinvolved.torfaen.gov.uk/.

Derbyniwyd 295 o ymatebion, yn cynnwys 10 ymateb gan Fforwm Pobl Ifanc Torfaen. Roedd y sylwadau'n gefnogol ar y cyfan a chynhyrchwyd drafft terfynol o'r strategaeth gan ystyried y sylwadau a ddaeth i law.

Yn wreiddiol, roedd hyn i fod i gael ei ystyried gan ein Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Glanach ym mis Mawrth 2020, cyn i'r cabinet ei gwblhau a'i gymeradwyo ym mis Ebrill 2020. Fodd bynnag, arweiniodd argyfwng COVID-19 at ganslo'r cyfarfod craffu, felly nid yw wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo erbyn y dyddiad cau.

Mae’r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi ystyried y strategaeth ddrafft ar y 24ain o Fedi ac mae cynlluniau ar waith i’w chyflwyno i’r Cabinet yn y gaeaf 2020-21.

## Sut rydyn ni wedi mesur ein cynnydd yn 2019/20 …

| ein dulliau mesur perfformiad yn y gweithgareddau hyn | cyfeiriad y daith | ein perfformiad yn 2018/19 | ein targed yn 2019/20 | ein perfformiad yn 2019/20 | Gwella? | Cyrhaeddwyd y targed? | targed ein CC3 ar gyfer 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % ( a nifer) yr achosion tipio anghyfreithlon yr adroddwyd yn eu cylch ac a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith | Gorau po uchaf | 99.03%<br>915 | 98%<br>917 | 98.18%<br>934 | ↓ | ✓ | 98% |
| % y cwynion glendid sy'n cael ymateb o fewn safonau deddf cymdogaethau glân<br>i) gwydr wedi torri;<br>ii) baw cŵn ar wynebau caled<br>iii) ceisiadau gordyfiant/rhwystrau | Gorau po uchaf | i. 86.60%<br>ii. 95.78%<br>iii. 29.81% | i. 86%<br>ii. 86%<br>iii. 86% | i. 78.13%<br>ii. 93.10%<br>iii.48.91% | ↓<br>↓<br>↑ | ✗<br>✓<br>✗ | i) 86%<br>ii) 86%<br>iii) 86% |
| % o bobl a arolygwyd sy'n cytuno bod yr ardal leol yn rhydd rhag sbwriel a gwastraff NSfW (2013/14) | Gorau po uchaf | 31.14%<br><br>(Arolwg Trigolion Torfaen) | I'w cytuno. Rhaid cysylltu ag arolwg trigolion na ddefnyddiwyd yn flaenorol NSfW | 29.66% | ↓ | **Amh.** | 66% |
| % y bobl a arolygwyd sy'n cytuno bod yr ardal leol wedi'i chynnal yn dda NSfW (2013/14) | Gorau po uchaf | 39.14%<br><br>(Arolwg Trigolion Torfaen) | Iw gytuno - Rhaid cysylltu ag arolwg trigolion na ddefnyddiwyd yn flaenorol NSfW | 41.40% | ↑ | **Amh.** | 77% |
| Arwynebedd tir dan reolaeth bioamrywiaeth gadarnhaol | Gorau po uchaf | 1470 ha | 1,500 ha | 1470ha | = | ✗ | 1,500 ha |
| % o wastraff yr awdurdod lleol sy'n cael ei ailgylchu a'i gompostio | Gorau po uchaf | 60.53% | 64% | 64.40% | ↑ | ✓ | 64% |
| Tunelli o wastraff a yrrir i'w waredu | Gorau po isaf | 18,186.74 tunnell | 17,000 tunnell | 15,692.84 tunnell | ↑ | ✓ | 16,500 tunnell |
| Cyfranogiad trigolion drwy ailgylchu –<br>a) gwastraff bwyd, a<br>b) gwastraff sych | Gorau po uchaf | 61.10%<br>96.15% | 58%<br>86% | 65.38%<br>94.08% | ↑<br>↓ | ✓<br>✓ | 58%<br>87% |
| % yr achosion tipio anghyfreithlon a arweiniodd at gamau gorfodi | Gorau po uchaf | 5.84% | 6% | 6.64% | ↑ | ✓ | 7% |

**ATODIAD 2:**

## BLAENORIAETH EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL 3 AC AMCAN LLES A GWELLIANT 2019/20...

## … CODI CYRHAEDDIAD ADDYSGOL

### Cyfrannu at amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen -

- **Rhoi'r cychwyn gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc**
- **Gwella sgiliau lleol trwy gynllunio gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli**

### Cyfrannu at weledigaeth ein Cynllun Corfforaethol 3 ar gyfer Torfaen -

**Mae pob person ifanc yn cael y cyfle gorau posibl mewn bywyd trwy gael addysg o safon dda.**

### A, chyfrannu tuag at nodau blaenoriaeth 2020 ein Cynllun Corfforaethol 3…

| Ein nodau yn 2020 ar gyfer y flaenoriaeth hon … | |
|---|---|
| **Fel Cyngor, byddwn yn …** | • gweithio gydag ysgolion a staff dysgu i godi cyrhaeddiad ac annog holl bobl ifanc i gymryd rhan mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16<br>• gweithio gyda phob ysgol sy'n cael eu sgorio'n wyrdd neu'n felyn yn y system genedlaethol o Gategoreiddio Ysgolion<br>• sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg o ansawdd, gan gynnwys 'plant sy'n derbyn gofal', rhai gydag anghenion dysgu ychwanegol neu mewn perygl o fod angen derbyn gofal<br>• gweithio i gau'r bylchau rhwng y rhywiau a chyrhaeddiad cymdeithasol-economaidd<br>• gweithio i sicrhau bod gan holl ddysgwyr sgiliau llythrennedd a rhifedd effeithiol<br>• Cynllunio ar gyfer adeiladau ysgol newydd a gwell sy'n addas i'r pwrpas yn y 21ain ganrif<br>• cefnogi ac annog ein pobl ifanc i'w rhwystro rhag mynd yn NEET (nid mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant)<br>• gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod ein pobl yn datblygu'n ddinasyddion llawn gyda'r cyfle gorau posibl yn y farchnad swyddi bresennol<br>• Cydnabod pwysigrwydd addysg blynyddoedd cynnar, adnabod anghenion dysgwyr ac addasu gwasanaethau i sicrhau bod holl blant a'u rhieni/gofalwyr yn cael eu cefnogi i ddysgu a chyflawni" |
| **Fel Cyngor, byddwn yn cefnogi …** | • cyrff llywodraethol i sicrhau bod ganddynt y capasiti i gynnig her a chymorth i'w hysgolion a chodi dyheadau a chyrhaeddiad |
| **Fel Cyngor, rydym yn disgwyl i rieni a gofalwyr …** | • feddu ar ddyheadau uchel ar gyfer eu plant a chyfrannu'n weithredol tuag at, ac ymgysylltu gydag addysg eu plant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn barod i ddysgu a gwneud cyfraniad positif |

**Mae cynnydd yn erbyn pob un o'n gweithgareddau allweddol, dulliau mesur perfformiad a thargedau a gyhoeddwyd gennym ar gyfer yr amcan gwella hwn yn 2019/20 wedi'u nodi isod …**

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|
| **Gweithgaredd 1** | |
| **Byddwn yn arolygu pwrpas a chynllun busnes yn y dyfodol ar gyfer Hyfforddiant Torfaen yn wyneb penderfyniadau contract Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru'n Gweithio a Dysgu Seiliedig ar Waith.** | Bydd Hyfforddiant Torfaen yn dod yn gynaliadwy, gan ddarparu cyfleoedd hyfforddi gwell i bobl yn Nhorfaen. |

**Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**

Dechreuodd Gwasanaeth Cymru'n Gweithio (a weithredir gan Gyrfaoedd Cymru) yn 2019. Lansiodd Llywodraeth Cymru ymarfer caffael i ddod o hyd i ddarparwr rhanbarthol a allai gyflwyno'r rhaglen amnewid i Hyfforddeiaethau fel rhan o Gynnig Cymru'n Gweithio. Fodd bynnag, tynnwyd y caffaeliad yn ôl gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau 2020 ac estynnwyd contractau deiliaid contractau hyfforddeiaeth presennol (gan gynnwys Hyfforddiant Torfaen) tan 2021.

Lansiwyd camau caffael Dysgu Seiliedig ar Waith 5 (Prentisiaeth) ym mis Awst 2020 gyda dyddiad cau ym mis Hydref 2020. Y bwriad yw caffael rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant (fel y mae ar hyn o bryd) ond gyda rhywfaint o amrywiad i'r fframweithiau a'r cymwysterau a gyhoeddir. Mae swyddogion wedi bod yn modelu opsiynau i nodi ffordd gynaliadwy i Hyfforddiant Torfaen gymryd rhan yn ymarfer caffael hwn a bydd achos busnes yn cael ei gwblhau ym mis Hydref.

| | |
|---|---|
| **Gweithgaredd 2** | |
| **Byddwn yn rheoli'r newid o'r ddarpariaeth bresennol i'r coleg 6ed dosbarth newydd, gan gynnwys trefniadau cynlluniau pontio ôl-16 a phrosesau ar gyfer disgyblion ADY sy'n symud i'r coleg newydd.** | Bydd effaith Blwyddyn 11 yn symud i Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ar gyfer 2019 a 2020 yn cael ei rheoli a byddwn yn sicrhau bod holl ddisgyblion ADY yn cael y cymorth angenrheidiol i sicrhau trosglwyddo llyfn. |

**Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**

Mae'r Grŵp Prosiect yn parhau i reoli trefniadau pontio ar gyfer pob myfyriwr gan gynnwys y rheini ag ADY o'r ddarpariaeth gyfredol i Barth Dysgu newydd Torfaen.

Oherwydd yr oedi yn yr adeiladu a achoswyd gan COVID-19, mae staff a myfyrwyr sydd i fod i gychwyn ym Mharth Dysgu newydd Torfaen yng Nghwmbrân i gyd yn mynd i dreulio Tymor yr Hydref ar gampws Coleg Gwent ym Mhont-y-pŵl a symud drosodd i'r Parth Dysgu newydd ym mis Ionawr 2021. Felly bydd y cynlluniau pontio yn parhau tan fydd yr holl fyfyrwyr wedi ymgartrefu yn y cyfleuster newydd.

Mae'r gweithgareddau pontio hyd yma wedi cynnwys:

- Sesiynau ac ymweliadau rheolaidd dan ofal staff y prosiect a'r coleg,
- Dewis cyrsiau a chanllawiau ymgeisio,
- Diwrnodau agored yn y coleg a chymorth bugeiliol,
- Roedd deunyddiau cyrsiau ar-lein hefyd ar gael i fyfyrwyr yn ystod y cyfnod clo a thros wyliau'r haf
- Cyfarfodydd gyda Phenaethiaid Blwyddyn a rheolwyr cymorth yn holl ysgolion Torfaen,
- Cysylltwyd â phob dysgwr sydd wedi nodi ar y ffurflen gais bod ganddynt anhawster a / neu anabledd, a hynny trwy e-bost yn y lle cyntaf neu dros y ffôn, a gofynnwyd iddynt ddarparu gwybodaeth bellach yn ymwneud â'r cymorth sydd ei angen arnynt,
- Derbyniodd ein hadran Anghenion Dysgu Ychwanegol neu ein tîm cymorth bugeiliol (Inspire) y dysgwyr y nodwyd bod angen cymorth pontio ychwanegol arnynt (Inspire) ac fe wnaethant gysylltu â dysgwyr yn unigol i gynnig cymorth ychwanegol gyda phontio a dechrau yn y coleg,

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|
| – Rydym wedi anfon gwaith i ysgolion sy'n bwydo yn Nhorfaen, fel y gall eu dysgwyr barhau ag ef, i baratoi ar gyfer cychwyn ar gampysau Pont-y-pŵl a Pharth Dysgu Torfaen,<br>– Anfonwyd dolen at e-lyfr i bob disgybl a dderbyniodd gynnig am le ar gwrs gan Goleg Gwent, sy'n cynnwys gair o groeso a chyflwyniad i'r coleg, o'r fan hon, gall disgyblion gyrchu tudalennau CG-Connect gyda gwybodaeth am fywyd yn y coleg, gweithgareddau a chymorth gan y coleg, a<br>– Cynigiwyd sesiynau Cyngor ac Arweiniad rhithwir i bob ysgol yn Nhorfaen trwy eu Pennaeth Blwyddyn 11 a hynny i ddisgyblion nad oeddent eto wedi penderfynu ar lwybr ar gyfer Medi 2020. Fe wnaeth y Coleg hefyd gynnal Digwyddiad Agored rhithwir ar y 23ain o Fehefin. | |
| **Gweithgaredd 3** | |
| **Byddwn yn rheoli'r newidiadau sy'n deillio o raglen Cymru'n Gweithio.** | I reoli'r effaith ar brosesau Fframwaith Cynnydd Ymgysylltiad Pobl Ifanc ar gyfer atgyfeiriadau Rheng 2 pobl ifanc sy'n NEET (Nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant) yn 16-18 oed. |
| **Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**<br><br>Er bod Cymru'n Gweithio wedi ymgymryd â'r swyddogaeth gydlynu, mae'r rhaglen hyfforddeiaeth bellach wedi'i hymestyn i Orffennaf 2021. Mae'r Cydlynydd Ymgysylltu a Dilyniant a'r Swyddog Ymgysylltu â Chyflogaeth mewn cysylltiad rheolaidd â Gyrfaoedd Cymru (awdurdod rheoli Gweithio Cymru) i sicrhau bod atgyfeiriadau'n parhau i fynd rhagddynt yn Nhorfaen. Mae'r broses Cadw mewn Cysylltiad (KIT) yn parhau i weithredu'n effeithiol o dan y system newydd. | |
| **Gweithgaredd 4** | |
| **"Byddwn yn ehangu'r rhaglenni ymyrraeth cymorth teulu yn y blynyddoedd cynnar, magu plant a thimau cymorth iaith gynnar.** | I fod ar gael ledled Torfaen i leihau ymyraethau statudol fel Plant sy'n Derbyn Gofal, a meithrin gwytnwch teuluol yn enwedig o ran lliniaru Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod. |
| **Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**<br><br>Yn 2019/20, gwnaethom gyhoeddi Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar y cyd i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar gyfer Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf, Gwasanaethau'r Blynyddoedd Cynnar. Trwy wneud hyn, roeddem yn gallu dechrau alinio'r ddarpariaeth ar draws y ddwy raglen a defnyddio'r gallu presennol i ateb y galw lle bo angen, heb ehangu'r lefelau staffio.<br><br>Bu Tîm Datblygu Iaith Gynnar Dechrau'n Deg hefyd yn gweithio gyda Gweithwyr Prosiect Teuluoedd yn Gyntaf, i symleiddio eu pecynnau cymorth. Mae hyn bellach yn golygu, waeth ble rydych chi'n byw yn Nhorfaen, yr un cymorth a gewch i helpu gyda datblygiad lleferydd eich plentyn. | |
| **Gweithgaredd 5** | |
| **Byddwn yn gwella ansawdd y ddarpariaeth ym mhob lleoliad gofal plant yn Nhorfaen.** | I sicrhau bod holl blant yn cael y cychwyn gorau a chyflawni eu cerrig milltir datblygiadol. |
| **Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**<br><br>Dechreuodd Torfaen weithredu'r Cynnig Gofal Plant ym mis Medi 2018, fel rhan o Gam 2 Llywodraeth Cymru (LlC) i Weithredu'r Cynnig yn Gynnar. Mae'r Cynnig Gofal Plant yn cael ei ddarparu mewn cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. | |

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|

Dewisodd LlC Blaenau Gwent (BG) fel yr Awdurdod Cyflenwi, sy'n gyfrifol am brosesu ceisiadau Torfaen gan rieni, felly'n penderfynu ar gymhwysedd a'u hysbysu ynghylch y canlyniad. Mae BG hefyd yn gyfrifol am weinyddu a phrosesu taliadau i ddarparwyr gofal plant Torfaen am gyflawni'r Cynnig.

Fel rhan o'r Cynnig Gofal Plant, yn 2019/20 rydym wedi gweld gwelliant cynyddol mewn ansawdd ym mhob lleoliad gofal plant, o ganlyniad i gynyddu nifer y darparwyr sy'n cwblhau Graddfa Sgorio Amgylcheddol (ERS). (Mae'r Graddfeydd Sgorio Amgylcheddol (ERS) yn gyfres o raddfeydd ymchwil a ddefnyddir i asesu ansawdd prosesau mewn gofal grŵp plentyndod cynnar).

Mae cyllid grant bach y Cynnig Gofal Plant yn parhau i gael ei ddyfarnu i'r rhai sydd wedi cofrestru i gyflawni'r Cynnig Gofal Plant, yn bennaf ar gyfer lleoliadau i wella ansawdd eu hamgylcheddau.

Mae Swyddog Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) hefyd wedi'i gyflogi i weithio gyda holl ddarparwyr y Cynnig Gofal Plant i gynorthwyo gydag ADY, yn ogystal â chychwyn arolwg o barodrwydd o ran y Ddeddf ADY. Mae hyn hefyd yn cael ei wneud gan Swyddog Cymorth Blynyddoedd Cynnar ADY Dechrau'n Deg.

Trwy gydol 2019/20, rydym hefyd wedi:

- Darparu hyfforddiant ar y Ddeddf ADY yn rhanbarthol i tua hanner y darparwyr gofal plant, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gydlynwyr ADY.
- Gosod cynlluniau datblygu ar gyfer yr holl ddarparwyr gofal plant Dechrau'n Deg a pharhau i fonitro a gwerthuso i sicrhau bod gofal plant Dechrau'n Deg yn gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- Darparu cefnogaeth i ddarparwyr gofal plant Dechrau'n Deg gyda Phroffiliau Cyfnod Sylfaen a dadansoddi data i nodi'r plant hynny sydd angen cymorth ychwanegol ac i gadw llygad, i sicrhau bod lleoliadau wedi derbyn y sgôr cywir.
- Parhau i drefnu cyfarfodydd pontio a sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth dda i'r plant hynny sydd angen cymorth pontio dwysach.
- Gweithredu panel Ymyrraeth y Blynyddoedd Cynnar ac ADY sydd wedi symleiddio prosesau Lleoedd a Gynorthwyir a Phrosesau Dechrau'n Deg, gan arwain at un panel i gymeradwyo ceisiadau.
- Cychwyn monitro diogelu ar-lein gyda rhai darparwyr i sicrhau eu bod hefyd yn cwrdd â'r gofynion diogelu cyfredol.
- Sicrhau bod Lleoedd â Chymorth yn parhau i ddarparu gofal plant i'r plant mwyaf bregus yn Nhorfaen a helpu i leihau nifer y Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

**Gweithgaredd 6**

| | |
|---|---|
| **Byddwn yn sicrhau bod trefniadau diogelu yn gynhwysfawr ac yn addas i'r pwrpas trwy weithredu "Fy Mhryderon", pecyn ar-lein newydd i ysgolion.** | Byddai creu cronfa ddata diogel, byw a rennir yn datblygu ymhellach y gwaith o fonitro Cyfarfodydd Strategaeth Broffesiynol. Bydd gwell dadansoddiad o ddata diogelu yn sicrhau bod yna gydymffurfio mewn perthynas â diogelu a gwella polisi, gweithdrefnau, hyfforddiant a systemau. |

**Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**

Crëwyd cronfa ddata diogel, byw yn 2018 ac wedyn, mewn trafodaeth gyda'r Adran Adnoddau Dynol Addysg datblygwyd proses sy'n cefnogi monitro Cyfarfodydd Strategaeth Proffesiynol ymhellach.

Ar hyn o bryd, mae 29 o ysgolion yn defnyddio'r cysyniad Fy Mhryderon i gofnodi ac adrodd pryderon ynghylch diogelu ac mae hyfforddiant yn mynd rhagddo i ddatblygu defnydd a buddion y system ymhellach.

Ynghyd â phrosesau eraill sydd ar waith eisoes, e.e. Teclyn Hunanwerthuso Adran 175, rydym wedi gallu gwella ein modd o ddadansoddi data diogelu, sicrhau bod yna gydymffurfio parhaus mewn perthynas â pholisi a gweithdrefnau diogelu ac addasu'r cynnig hyfforddiant a chefnogaeth i ysgolion a'r gwasanaeth yn unol â hynny i sicrhau ei fod yn diwallu eu hanghenion a'u gofynion diogelu.

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|
| | |
| **Gweithgaredd 7** | |
| **Byddwn yn datblygu ac adeiladu capasiti mewn ysgolion i baratoi ar gyfer Cyfnod Trawsnewid ADY a chwblhau Arolwg Parodrwydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn rhanbarthol.** | Gan weithio ar y cyd â'r arweinydd trawsnewid ADY a Chonsortiwm De-ddwyrain Cymru (SEWC), caiff polisïau a gweithdrefnau eu datblygu yn unol â'r Cod ADY newydd a'r Bil ADY i symud o ddatganiadau anghenion addysgol arbennig (AAA) i Gynlluniau Datblygu Personol (CDP). |

**Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**

Mae pob clwstwr wedi cwblhau'r Arolwg Parodrwydd Ysgolion cychwynnol (Mawrth 2019) ac mae mwyafrif y clystyrau wedi cwblhau'r adolygiad o Arolwg Parodrwydd Ysgolion (Mawrth 2020), er mwyn dadansoddi cynnydd tuag at weithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) 2018.

Mae bron pob clwstwr wedi datblygu Cynllun Gweithredu Clwstwr, gan amlinellu eu dull fel clwstwr o weithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus. Gwnaethom hefyd ofyn i ysgolion ychwanegu canlyniadau at eu Cynllun Datblygu Ysgol o ran trawsnewid ADY, gyda deunyddiau enghreifftiol yn cael eu darparu i gefnogi.

Trwy gydol 19/20, mae gwaith clwstwr effeithiol a pharhaus wedi caniatáu i Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) rannu arfer gorau a datblygu prosesau a systemau o fewn clystyrau i sicrhau llwyddiant Deddf ADY 2018. Rydym wedi cefnogi CADY sy'n newydd i'w rôl, trwy ddatblygu dulliau hyfforddi a mentora ac o ganlyniad mae CADY wedi teimlo bod cymorth i CADY yn rhanbarthol yn fuddiol, gan alluogi dulliau cysondeb a rhannu arferion gorau o fewn clystyrau a rhyngddynt.

Mae cymryd rhan mewn hyfforddiant a gynigiwyd wedi bod yn gadarnhaol ac wedi caniatáu cydweithredu a chyfathrebu pellach ar draws clystyrau. Yn ystod y flwyddyn ariannol hon:

- Rydym wedi canolbwyntio ar fapio darpariaethau, cymedroli Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a gwella pontio.
- Fe wnaethom gynnal hyfforddiant Rheoli Newid gydag Impact Wales sydd wedi cefnogi Arweinwyr Clystyrau i gymryd rôl arwain ar draws eu clwstwr a chefnogi newid cadarnhaol. Mae Hyfforddiant Arweinyddiaeth Ganolog hefyd wedi bod yn werthfawr i CADY mewn swyddi arweinyddiaeth ganol nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant arweinyddiaeth o'r blaen; mae hyn wedi cynorthwyo'r ffocws ar arweinyddiaeth strategol a cham i ffwrdd o ddulliau gweithredol, ar ôl adolygu rôl y CADY.
- Cynhaliwyd sesiynau "Camu'n Ôl, Hyfforddi'r Hyfforddwr" sydd wedi bod yn hynod effeithiol wrth ddatblygu dull i gefnogi annibyniaeth a gwytnwch plant a phobl ifanc yn ein lleoliadau, gan ganiatáu i hyfforddwyr ymestyn y cynnig ymhellach i ysgolion.

| | |
|---|---|
| **Gweithgaredd 8** | |
| **Byddwn yn ymgymryd âr broses ymgynghori (a symud ymlaen yn unol â hynny) ar gyfer y cynnig i ehangu Ysgol Gyfun Gwynllyw, gan ymestyn yr amrediad oedran o 11-18 i 3-18.** | Ysgol gyfrwng Gymraeg arfaethedig yn agor ym mis Medi 2021.<br><br>Mae gan yr ysgol arfaethedig gyllideb gyfalaf o £6 miliwn, wedi ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru, gan |

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
| --- | --- |
| | gefnogi nod hollbwysig Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |

**Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**

Daeth y broses ymgynghori ffurfiol i ben ym mis Mehefin 2019 gyda'r cyngor yn cytuno i fwrw ymlaen â'r cynnig. Y bwriad o hyd yw y bydd y ddarpariaeth newydd yn agor ar safle presennol Ysgol Gwynllyw ym mis Medi 2021, er na fydd yr adeilad newydd i blant 3-11 yn barod i'w llenwi ar y dechrau, oherwydd oedi mewn materion yn ymwneud â Coronafirws (oedi a chostau uwch).

## Sut rydyn ni wedi mesur ein cynnydd yn 2019/20 …

| ein dulliau mesur perfformiad yn y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad y daith | ein perfformiad yn 2018/19 | ein targed yn 2019/20 | ein perfformiad yn 2019/20 | Gwella? | Cyrhaed dwyd y targed? | ein targed CC3 yn 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % y disgyblion sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg<br>Holl ddisgyblion<br>Disgyblion Nad Ydynt Yn Cael PYaDd<br>Disgyblion Sy'n Cael PYaDd<br>Bachgen<br>Merch | Gorau po uchaf | 48.9%<br>54.5%<br>24.1%<br>43%<br>54.8% | Amh.<br>Amh.<br>Amh.<br>Amh.<br>Amh. | 48.3%<br>54%<br>23.60%<br>38.3%<br>55.40% | ✘<br>✘<br>✘<br>✘<br>✘ | Amh.<br>Amh.<br>Amh.<br>Amh.<br>Amh. | Amh.<br>Amh.<br>Amh.<br>Amh.<br>Amh. |
| % y disgyblion sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A*-C mewn Cymraeg/Saesneg a Mathemateg | Gorau po uchaf | 10% | Amh. | 12.5% | ✔ | Amh. | Amh. |
| System Categoreiddio Ysgolion- Nifer yr Ysgolion yn y Categori Gwyrdd, Melyn, Ambr a Choch (Canran) | Gorau po uchaf | 74.19% gwyrdd neu felyn (22 Cynradd/1 Uwchradd)<br>6% coch (1 Cynradd/1 Uwchradd) | 90% gwyrdd neu felyn<br>0% coch | 77.42% gwyrdd neu felyn (23 Cynradd/1 Uwchradd)<br>12.9% (1 Cynradd/3 uwchradd) | ✔ | ✘ | 90% gwyrdd neu felyn<br>0% coch |
| % ysgolion o leiaf ar ris 2 (B) ar gyfer Categoreiddio Cenedlaethol Arweinyddiaeth<br>Ysgolion Cynradd<br>Ysgolion Uwchradd | Gorau po uchaf | 84.% (21 allan o 25)<br>33.33% (2 allan o 6) | 92% (23 allan o 25)<br>83% (5 allan o 6) | 92% (23 allan o 25)<br>17% (1 allan o 6) | ✔<br>✘ | ✔<br>✘ | 88% (23 allan o 26)<br>83% (5 allan o 6) |
| % y plant [yn derbyn gofal a chymorth] a gyflawnodd y dangosydd pwnc craidd yng Nghyfnod Allweddol 4 | Gorau po uchaf | 17.39% | Amh. oherwydd newid i'r carfannau | Amh. oherwydd newid mewn mesurau perfformiad | Amh. | Amh. | Amh. oherwydd newid i'r carfannau |
| Buddsoddi mewn ysgolion a chanolfan chweched dosbarth fel rhan o'r Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif | Gorau po uchaf | £22.8 miliwn | £32 miliwn | £22.7 miliwn (mae'r tanwariant oherwydd i brosiect RC 3-16 gael ei ohirio gan yr Archesgobaeth) | =. | ✘ | £13.3 Miliwn |

| ein dulliau mesur perfformiad yn y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad y daith | ein perfformiad yn 2018/19 | ein targed yn 2019/20 | ein perfformiad yn 2019/20 | Gwella? | Cyrhaed dwyd y targed? | ein targed CC3 yn 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y myfyrwyr sy'n cyflawni trothwy Lefel 3 (a nifer) | Gorau po uchaf | 92.3% | heb ei osod ar hyn o bryd | 94.9% | ✓ | Amh. | 97% |
| Canran y bobl ifanc (carfan Blwyddyn 11) a adroddwyd nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant. | Gorau po isaf | 1.8% | 1.5% | 2.13% | ✗ | ✗ | 1.5% |
| % y disgyblion a gyflawnodd L4 yn y DPC,CA2<br>% y disgyblion a gyflawnodd L4 Saesneg, CA2<br>% y disgyblion a gyflawnodd L4 Mathemateg, CA2<br>% y disgyblion a gyflawnodd L4 Gwyddoniaeth, CA2<br><br>% y disgyblion a gyflawnodd L5 yn y DPC,CA3<br>% y disgyblion a gyflawnodd L5 Saesneg, CA3<br>% y disgyblion a gyflawnodd L5 Mathemateg, CA3<br>% y disgyblion a gyflawnodd L5 Gwyddoniaeth, CA3 | Gorau po uchaf | 91.3%<br>92.4%<br>92.9%<br>94.6%<br><br>88.3%<br>91.3%<br>93%<br>94.63% | 89.4%<br>91.1%<br>91.7%<br>93.3%<br><br>90.7%<br>91.2%<br>93.7%<br>94.4% | Amh.<br>Oherwydd newid yn y mesurau perfformiad | Amh. | Amh. | 85.3%<br>87.5%<br>88.1%<br>89.4%<br><br>90.7%<br>93.7%<br>92.5%<br>95.7% |

**ATODIAD 3:**

## BLAENORIAETH EIN CYNLLUN CORFFORAETHOL 3 AC AMCAN LLES A GWELLIANT 2019/20...

**… CEFNOGAETH I DRIGOLION MWYAF BREGUS TORFAEN**

### Cyfrannu at amcanion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Torfaen …

- **Cefnogi ffyrdd iach o fyw a galluogi pobl i heneiddio'n dda.**
- **Delio â phatrymau rhyng-genedlaethol o dlodi a datblygu gwytnwch economaidd**

### Cyfrannu at ein gweledigaeth Cynllun Corfforaethol 3 ar gyfer Torfaen...

**Cymuned iachach lle mae'r bobl fwyaf bregus yn cael eu cynorthwyo i fyw bywydau iach, annibynnol, lle mae'r cyngor ac asiantaethau eraill yn gweithio i rwystro dioddefaint a chaledi a lleihau anghydraddoldeb**

### A, chyfrannu tuag at nodau blaenoriaeth2020 ein Cynllun Corfforaethol 3 …

| Ein nodau yn 2020 ar gyfer y flaenoriaeth hon … | |
|---|---|
| **Fel Cyngor, byddwn yn …** | • cefnogi'r rheiny sydd ei angen fwyaf, gan rhoi cymorth diogel, priodol ac urddasol i'n trigolion mwyaf agored i niwed, ond hefyd yn hybu annibyniaeth lle bynnag y bo modd<br>• gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned a'r sector gwirfoddol i helpu i wella bywydau'r rhai mwyaf bregus<br>• Adnabod pobl sy'n agored i niwed cyn gynted ag y bo modd er mwyn medru ymyrryd yn gynnar i'w cynorthwyo a lle'n bosibl, er mwyn rhwystro eu problemau rhag gwaethygu. Rydym yn gwerthfawrogi gwasanaethau ymyrraeth gynnar sy'n helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth ac ansawdd eu bywyd, a helpu'r Cyngor i arbed arian yn y tymor hir.<br>• gweithio i drechu tlodi, yn enwedig tlodi plant, a lleihau anghydraddoldeb<br>• cefnogi rhieni/gofalwyr a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd incwm isel i wella eu sgiliau ac osgoi canlyniadau iechyd a chymdeithasol tlodi. |
| **Fel Cyngor, byddwn yn cefnogi …** | • y trydydd sector a chymunedau i helpu pobl i ddod yn gydnerth yn ariannol ac yn gymdeithasol, gyda'r sgiliau, yr wybodaeth a'r cymorth iawn i ddod yn fwy annibynnol. Byddwn yn cryfhau ein cymunedau, fel mannau lle mae pobl yn gofalu am ei gilydd ac yn helpu ei gilydd mewn cyfnodau o angen.<br>• y gymuned i ddelio gyda materion iechyd penodol ac annog ffordd o fyw iach a hyrwyddo gwasanaethau gwybodaeth sy'n galluogi i ddinasyddion wneud penderfyniadau gwybodus<br>• gofalwyr di-dâl, fel cydnabyddiaeth o'r cyfraniad anferth maent yn ei wneud i gymdeithas. Byddwn hefyd yn ceisio deall eu hanghenion yn well |
| **Fel Cyngor, rydym yn disgwyl** | • i rieni a gofalwyr ofalu am eu plant a'u cadw'n ddiogel rhag niwed<br>• pobl i ofalu am ei gilydd a chadw llygad ar y bobl mewn mwyaf o angen |

## Mae cynnydd yn erbyn pob un o'n gweithgareddau allweddol, dulliau mesur perfformiad a thargedau a gyhoeddwyd gennym ar gyfer yr amcan gwella hwn yn 2019/20 wedi'u nodi isod …

| Ein gweithgareddau … | Yr effaith a ddisgwylir … |
|---|---|
| **Gweithgaredd 1** | |
| **Byddwn yn gweithredu ein Strategaeth Gofal Cartref ac wrth wneud hynny byddwn yn:**<br>▪ **Ystyried ymarferoldeb cynyddu ein darpariaeth fewnol o 10% i 14% trwy ganolbwyntio ar alluogi byrdymor a rheoli dementia hirdymor a gofal cymhleth,**<br>▪ **Gweithio gyda chydweithwyr comisiynu i sgopio effaith ariannol gweithrediad Siarter Gofal Moesegol Unsain, a"**<br>▪ **Gweithio gyda darparwyr i ddatblygu manyleb tendr seiliedig ar ardal.** | ▪ Bydd cynnydd yn y farchnad fewnol yn lleihau ein dibyniaeth ar ddarparwyr allanol a symudiadau yn y farchnad gofal cartref yn lleol. Byddwn yn gallu delio'n well gyda heriau cynyddol yn y galw sy'n gysylltiedig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a chleientiaid gydag anghenion mwy cymhleth.<br>▪ Byddwn yn gostwng nifer y pecynnau gofal sydd eu hangen ar ddiwedd ymyraethau galluogi, lleihau rhestri aros i gleientiaid sy'n aros am becynnau gofal, sy'n arwain at oedi wrth drosglwyddo gofal a/neu bwysau ychwanegol ar ofalwyr anffurfiol. |

### Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…

Yn flaenorol, gwnaethom gyflwyno adroddiad i'r Cabinet ym mis Tachwedd 2018 lle rhoddwyd cytundeb 'mewn egwyddor' i ehangu'r gwasanaeth mewnol erbyn 2020/21, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael. Datblygwyd ein cynlluniau i ehangu gyda chaniatâd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach. Yn anffodus, nid yw ein sefyllfa ariannol wedi bod yn ffafriol ac oherwydd hynny nid oedd cyllid ychwanegol ar gael, gwaethygwyd hyn ymhellach gan y pwysau cyllido ychwanegol a gyflwynwyd trwy COVID-19 sydd wedi cyfyngu ein deialog â Llywodraeth Cymru ynghylch ffynonellau cyllid eraill. Fodd bynnag, roeddem yn gallu symud rhai elfennau ymlaen y tu ôl i'r llenni. Gwnaethom ddatblygu proses recriwtio symlach a arweiniodd at lenwi swyddi gwag hirsefydlog.

Roeddem yn gallu dechrau gweithio gyda darparwyr i ddeall eu materion yn well a rhannu ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Fe wnaeth uwch reolwyr gymryd rhan mewn rhaglen ddeuddydd o ddysgu gyda Chyngor Gwynedd, gan ymweld â nifer o safleoedd ledled y sir i arsylwi a dysgu o'u profiadau. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Chwefror 2020 lle dechreuom archwilio gwahanol fodelau. Dyma'r cyntaf o nifer o weithdai oedd wedi eu cynllunio. Nid ydym wedi gallu hwyluso ail weithdy oherwydd canllawiau cadw pellter cymdeithasol ond mae trafodaethau'n parhau'n electronig.

Rydym hefyd wedi symud y gwaith ymlaen i ystyried datrysiadau digidol o dan y prosiect Gov Tech.

| | |
|---|---|
| **Gweithgaredd 2** | |
| **Byddwn yn arolygu ein darpariaeth gwelyau hirdymor a byrdymor i sicrhau effeithlonrwydd, hyblygrwydd ac rydym yn darparu cefnogaeth i gleientiaid gynnal eu hannibyniaeth.** | Bydd ateb yn cael ei ddatblygu a'i gytuno i ddarparu atebion priodol i unigolion sy'n hyrwyddo annibyniaeth, cymryd risgiau positif a chynhwysiant cymdeithasol<br><br>Bydd ein cynnig yn hyblyg, yn lleihau aneffeithlonrwydd ac yn gwneud defnydd gwell defnydd o opsiynau lletyau amgen. |

**Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**

Nodwyd 2019/20 fel blwyddyn gynllunio. Gwireddwyd y weledigaeth o hwb cymunedol gyda gwelyau arhosiad byr trwy waith caled a'r holl swyddogion yn mynd ati i weithio fel partneriaeth. Gwnaethom ganfod a sicrhau tir ym Mryn Eithin a fydd yn ein galluogi i adeiladu ein 'hwb' cymunedol. Bydd y cynllun yn cynnwys dewis o letyau ar sail arhosiad byr a pharhaol gyda mynediad at ofal a chymorth sydd wrth ei wraidd yn seiliedig ar gryfderau, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn canolbwyntio ar ailalluogi, seibiant, agwedd gadarnhaol at gymryd risgiau a chynhwysiant cymdeithasol a all gynyddu neu ostwng yn ôl yr angen.

Bydd y cynllun hefyd yn cynnwys cyfleusterau cymunedol ar y safle a fydd ar gael i'r holl drigolion i gynnig cyngor ac arweiniad a bydd hefyd ar gael i'r gymuned ehangach.  Bydd cyfleoedd hefyd i ddefnyddio'r gofod cymunedol ar gyfer cyfleoedd dydd sesiynol a gwasanaethau allgymorth.

Bydd y cynllun yn costio tua £4m a ariennir trwy gyllid cyfalaf Cronfa Gofal Integredig £2.7m, £400k o Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a £1.3m o gyllid preifat a godwyd gan y gymdeithas dai.  Dyma enghraifft o weithio mewn partneriaeth ar ei orau. Mae gofal cymdeithasol i oedolion, Tai Cymunedol Bron Afon a Chontractwyr Adeiladu P&P yn gweithio ar y cyd i gyflawni'r cynllun y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn yr hydref 2021.

Ar ôl gwaith helaeth yn ystod y flwyddyn cytunwyd ar ddyluniad a manylion yr adeilad. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar 21ain Ionawr 2020 a chytunwyd ar y Prif Delerau drafft (manylion contract) ar draws y bartneriaeth.

**Gweithgaredd 3**

| | |
|---|---|
| **Byddwn yn ail-ddiffinio ac ail-ddylunio'r cyfleoedd dydd rydym yn eu cynnig gyda'n partneriaid allweddol. Caiff y ddarpariaeth ei hail-ddylunio gan ddefnyddio egwyddorion allweddol: canolbwyntio ar yr unigolyn, hyblygrwydd ac ymatebolrwydd; ymgysylltiad (llais a rheolaeth); cysylltu ag eraill a'u cymunedau; tystiolaeth gref a mesur effaith, meddwl yn y tymor hir; partneriaeth a rhwystro a chyfranoledd.** | Bydd ein darpariaeth yn symud i fodel lle;<br>▪ mae popeth yn dechrau gyda'r unigolyn ac nid lleoliad gwasanaeth neu wagle.<br>▪ breuddwydion a dyheadau cleient yn cael eu dilyn o fewn y gwasanaeth, gan arwain at ddisgwyliadau uwch yn y pen draw a chynnydd mewn canlyniadau bywyd positif.<br>▪ Mwy o bobl yn symud i ffwrdd o'r gwasanaeth.<br>▪ Mae'r model yn gallu diwallu anghenion pobl gydag anghenion cymhleth. |

**Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**

O Ebrill 2019 fe wnaeth tîm o bobl, gydag anableddau dysgu a hebddynt gynnal rhaglen ymchwil yn canolbwyntio ar yr hyn y dylai diwrnod da ei olygu. Ffurfiwyd grŵp cyfeirio hefyd, yn cynnwys pobl sy'n mynychu Cyfleoedd Dydd a rhieni / gofalwyr. Fe wnaeth y tîm ymchwil wrando ar:

- Pobl ag Anawsterau Dysgu
- Rhieni a Gofalwyr
- Pobl sy'n darparu cymorth

Gan ofyn iddynt:

- Beth sy'n digwydd yn eich diwrnod chi nawr?
- Beth hoffech chi ddigwydd yn eich diwrnod?
- Pa gyfleoedd sydd ar gael yn lleol?
- Beth sydd ei angen er mwyn creu newidiadau?

Fe wnaeth y tîm ymchwil drefnu digwyddiadau ac adrodd ynghylch eu canfyddiadau ar y 24ain o Fehefin 2020 ar ôl ystyried effaith y pandemig Coronafirws. Canfyddiadau allweddol yr adroddiad oedd:

- Dywed y bobl sy'n mynychu ein Cyfleoedd Dydd,
  - eu bod yn hapus gyda'r hyn maent yn ei wneud, a
  - hoffent wneud mwy o bethau.
- Gwelwyd ein Cyfleoedd Dydd fel;
  - diogel,

        - rhoi rhywfaint o ddewis am yr hyn y mae pobl yn ei wneud,
        - mwy 'tebyg i waith' i ryw raddau a bod gan bobl llai o ddewis, a
        - bod gan staff ddiddordeb mewn pobl a'u bod yn darparu cefnogaeth dda iddynt.
    - Beth sydd angen ei wella;
        - Mwy o wybodaeth hygyrch,
        - Mwy o opsiynau i gael gwaith,
        - Opsiynau gwahanol i wneud ffrindiau, cwrdd â hen ffrindiau a theimlo'n rhan o'r gymuned,
        - Cynlluniau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar wasanaeth nid nodau, canlyniadau a dyheadau,
        - Gwell tystiolaeth o wneud penderfyniadau â chymorth, a
        - Taliadau uniongyrchol a ddefnyddir yn fwy hyblyg.

I fynd i'r afael canfyddiadau hyn, rydym wedi dechrau cymryd y camau canlynol;

- Mae gwaith wedi cychwyn ar adolygu cynlluniau gofal a chymorth yn unol ag argymhellion,
- Cwblhawyd holiadur cyn-gymhwyso ar gyfer cynllun newydd yr Adran Gwaith a Phensiynau a ddyluniwyd i gynorthwyo pobl ag anableddau dysgu i ailgydio ym myd gwaith. Oherwydd y cyfnod clo mae'r gwaith hwn wedi ei ohirio.
- Mae trafodaethau i ddatblygu rhaglenni gwaith cynhwysol wedi digwydd gyda'r timau gwaith mewnol a'n gwasanaeth AD.
- Mae cyfres o ffilmiau byrion yn cael eu cyd-greu gyda phobl ag anableddau dysgu i egluro am waith, taliadau uniongyrchol, cynlluniau gofal a chymorth, hawliau, gwneud penderfyniadau â chymorth ac ati.
- Mae darparwyr mewnol ac allanol yn adolygu eu prosesau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gwerthoedd sydd wedi'u hymgorffori mewn diwrnod da.
- Ysgrifennwyd / cytunwyd ar weledigaeth gyffredinol a set o amcanion i symud y gwaith yn ei flaen.
- Mae gwaith wedi cychwyn ar fynd ati i chwilio am ffyrdd newydd o ddefnyddio taliadau uniongyrchol.
- Edrych ar ffyrdd newydd o fesur effeithiolrwydd y broses a boddhad a chanlyniad y defnyddiwr gwasanaethau.
- Datblygu model datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff cyfleoedd dydd,
- Datblygwyd dulliau newydd o weithio gyda phobl, cawsant eu halinio  â 'diwrnod da' ac mewn ymateb i COVID19
- Mae staff yn cael eu paru â'r bobl maen nhw'n darparu cymorth ar eu cyfer.
- Datblygwyd dull newydd o dreialu cefnogaeth.
- Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi cael eu cynnal gyda darparwyr cyfleoedd dydd.
- Mae dulliau newydd o gymorth sydd wedi'u cynllunio i wella rhwydweithiau cymdeithasol a phresenoldeb cymunedol yn cael eu datblygu.

Mae COVID-19 yn parhau i gael effaith ddwys ar bobl sydd angen gofal ac sy'n ei ddefnyddio, yn ogystal â'u gofalwyr. Yn yr un modd mae'n effeithio ar sut y darperir gofal. Ni all rhai gwasanaethau weithredu fel y gwnaethant cyn COVID-19, tra bod ymyriadau eraill wedi'u cyfyngu'n ddifrifol. Mae'r sefyllfa'n cynnig cyfleoedd i arbrofi gyda ffyrdd newydd o weithio, ond bydd cyfyngiadau difrifol yn parhau i gyfyngu ar ddatblygiad rhai o'n datblygiadau arloesol arfaethedig.

**Gweithgaredd 4**

| | |
|---|---|
| **Byddwn yn arolygu prosesau drws ffrynt Gwasanaethau Plant er mwyn sicrhau bod cyswllt cyntaf/atgyfeiriadau yn cael eu trin yn effeithiol ac effeithlon ac yn cael eu cyfeirio at yr adnoddau priodol.** | Bydd ein drws ffrynt yn cael ei ail-ddylunio i sicrhau ein bod yn medru delio gyda materion rheoli galw a darparu mynediad priodol at y gwasanaethau sydd eu hangen gan blant a'u teuluoedd. |

**Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**

Mae ein gwasanaethau drws ffrynt wedi cael eu hadolygu ac arweiniodd hyn at ffurfio'r Hwb Cymorth a Diogelu Amlasiantaeth (MASSH), sy'n darparu un drws ar gyfer pob atgyfeiriad newydd i wasanaethau plant.  Mae'r Hwb wedi arwain at ymatebion mwy effeithlon ac amserol i atgyfeiriadau. Mae'r Tîm yn cynnwys cynrychiolwyr o'r meysydd gofal cymdeithasol, teuluoedd yn gyntaf, yr heddlu a gofal cwsmeriaid. Mae'r model cyfredol yn cyfateb i ddatblygiad cam un gyda datblygiad parhaus yr Hwb (MASSH) i gynnwys cynrychiolaeth gan asiantaethau allweddol fel iechyd ac addysg. Mae cerrig milltir diffiniedig yn unol â thrawsnewid gwasanaethau plant.

Ar y cyd â datblygiad yr Hwb (MASSH) rydym hefyd yn gwerthuso ac yn ehangu datblygiad llwybr atgyfeirio digidol yn unol â'r rhaglen drawsnewid gyffredinol.

| Gweithgaredd 5 | |
|---|---|
| **Byddwn yn datblygu un pwynt mynediad ar gyfer Iechyd Meddwl Sylfaenol wedi ei alinio gyda'n swyddogaethau Teuluoedd yn Gyntaf** | Byddwn yn gwneud hyn er mwyn lleihau'r pwysau ar yr angen am wasanaethau gofal cymdeithasol wrth ddelio gyda lles emosiynol.<br><br>Sicrhau bod gwasanaethau iechyd priodol yn cael eu defnyddio'n amserol, gan leihau achosion lle mae angen yn gwaethygu fel y mae'n ymwneud â lles emosiynol ac yn y tymor hirach yr angen am ddarpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Glaslanciau (CAMHS) trwy adnabod a delio gyda'r angen yn gynharach / rhwystro angen. |

**Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**

Mae Un Pwynt Mynediad ar gyfer Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant (SPACE) bellach ar waith yn Nhorfaen gyda chydlynydd ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB) bellach yn y swydd.

Mae panel lles SPACE yn digwydd yn wythnosol ac mae cynrychiolwyr o ystod o asiantaethau sy'n gallu darparu cefnogaeth i blant / pobl ifanc a theuluoedd yn bresennol yno. Mae'r panel yn ystyried atgyfeiriadau ar gyfer ymyrraeth gynnar a chefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol plant. Nod y panel yw sicrhau bod teuluoedd yn derbyn y cymorth cywir, y tro cyntaf, gan y gwasanaeth cywir.

| Gweithgaredd 6 | |
|---|---|
| **Byddwn yn arolygu'r trefniadau ar gyfer comisiynu asesiadau gyda golwg ar gaffael contract addas gydag un darparwr.** | Bydd un contract gydag un darparwr yn ein galluogi i: gynyddu lefel atebolrwydd ac ansawdd asesiadau, rheoli beichiau gwaith o fewn y gwasanaeth<br>a lleihau/rheoli gwariant ariannol yn effeithiol. |

**Ein diweddariad ar gynnydd yn 2019/20…**

Nid ydym wedi gallu dod o hyd i un darparwr oherwydd y nifer cyfyngedig sydd ar gael.

Er ein bod yn parhau i ddefnyddio ystod o wahanol ddarparwyr ar gyfer asesiadau, rydym wedi datblygu proses gomisiynu sy'n anelu at reoli'r gwariant ariannol a defnyddio contractau prynu ar hap gyda darparwyr er mwyn sicrhau ansawdd a chysondeb yr asesu.

## Sut rydyn ni wedi mesur ein cynnydd yn 2019/20 …

| ein dulliau mesur perfformiad yn y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad y daith | ein perfformiad yn 2018/19 | ein targed yn 2019/20 | ein perfformiad yn 2019/20 | Gwella? | Cyrhaeddwyd y targed? | ein targed CC3 ar gyfer 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % yr oedolion a gwblhaodd gyfnod o ailalluogi:<br>a. Ac sydd â phecyn gofal a chefnogaeth sy'n llai, 6 mis yn ddiweddarach | Gorau po uchaf po uchaf | 80.94% | 50% | 85.21% | ↑ | ✓ | 50% |
| b. A heb fod â phecyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach | | 77.28% | 80% | 82.84% | ↑ | ✓ | 80% |
| % yr oedolion sydd wedi cael cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a heb gysylltu â'r gwasanaeth am 6 mis | Gorau po uchaf | 93.26% | 90% | 90.86% | ↓ | ✓ | 90% |
| Cyfran yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a throsodd | Gorau po isaf | 3.24 | 5 | 4.35 | ↓ | ✓ | 5 |
| % y trigolion yn Nhorfaen lle bu modd osgoi derbyn i ysbyty ar ôl atgyfeiriad 'Meddygol Cyflym' i Eiddilwch gan y MT | Gorau po uchaf | 97.78% | 96% | 96% | ↓ | ✓ | 96% |
| % y bobl sy'n fodlon gyda'r gofal a'r cymorth a gafwyd [gwasanaethau oedolion] | Gorau po uchaf | 84.19% | 85% | Amh. (ni gesglir hyn mwyach) | **Amh.** | **Amh.** | 85% |
| % y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o'r lleoliad gofal yn ystod y flwyddyn<br>(D.S. Nid yw'r mesur hwn yn cynnwys plant sy'n dychwelyd i'w cartref ond heb gael eu rhyddhau o ofal) | Gorau po uchaf | 51.92% | 68% | 52% | ↑ | ✗ | 58% |
| % y plant sy'n derbyn gofal a ddychwelodd adref o'r lleoliad gofal yn ystod y flwyddyn | Gorau po uchaf | 12% | 12% | 11% | ↓ | ✗ | 12% |
| Amser ar gyfartaledd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Gorau po isaf | 203 o ddiwrnodau | 185 o ddiwrnodau | 183 o ddiwrnodau | ↑ | ✓ | 185 o ddiwrnodau |
| Ail-gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant | Gorau po isaf | 1.14% | 5.4% | 1% | ↑ | ✓ | 5.5% |

| ein dulliau mesur perfformiad yn y gweithgareddau hyn | Cyfeiriad y daith | ein perfformiad yn 2018/19 | ein targed yn 2019/20 | ein perfformiad yn 2019/20 | Gwella? | Cyrhaed dwyd y targed? | ein targed CC3 ar gyfer 2020/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % y gofalwyr sy'n adrodd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau yn eu rôl ofalu | Gorau po uchaf | 57.78% | 75% | Amh. (ni gesglir hyn mwyach) | **Amh.** | **Amh.** | 75% (2016/17) |
| % (a nifer)y teuluoedd a gefnogir gan y Rhaglen Cymorth Teuluoedd sydd wedi gweld gwelliant y gellir ei ddangos mewn o leiaf 3 canlyniad | Gorau po uchaf | 83.51%<br>81 | 95% | 82.44%<br>108 | ↓ | ✘ | 95% (2016/17) |
| % yr achosion lle rhwystrwyd digartrefedd (a66) | Gorau po uchaf | 54.59% | 55% | 59.20% | ↑ | ✓ | 60% |
| % y bobl y mae s75 yn ddyledus iddynt y rhyddhawyd y ddyletswydd honno | Gorau po uchaf | 68.04% | 65% | 84.21% | ↑ | ✓ | 70% |
| % y 'Bobl Sy'n Derbyn Cymorth' sy'n cyflawni'r canlyniadau a ganlyn<br><br>SP1: Teimlo'n Ddiogel<br>SP6: Rheoli Arian<br>SP9: Yn Gorfforol Iach<br>SP10: Yn Feddyliol Iach | Gorau po uchaf | 92.89%<br>91.51%<br>91.84%<br>90.21% | 62%<br>58%<br>59%<br>54% | 94.36%<br>93.84%<br>92.87%<br>91.32% | ↑<br>↑<br>↑<br>↑ | ✓<br>✓<br>✓<br>✓ | 62%<br>58%<br>59%<br>54% |
| % yr oedolion (16+) sy'n cymryd rhan mewn cymorth cyflogadwyedd sy'n symud ymlaen i waith | Gorau po uchaf | 22.65% | 18% | 25.47% | ↑ | ✓ | 18% |

# Atodiad 4 – Ein perfformiad yn 2019/20 – Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

| Crynodeb – 26 o ddangosyddion | |
|---|---|
| ↓ | **12 dangosydd – Gostyngiad mewn perfformiad (46.15%)** |
| = | **0 dangosydd – Perfformiad cyson (0%)** |
| ↑ | **10 dangosydd – Perfformiad gwell (38.46%)** |
| **Amh.** | **3 dangosydd - (15.38%)** |

| Dangosydd | Perfformiad o flwyddyn i flwyddyn (rhwng 2018/19 a 2019/20) | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2019/20 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2018/19 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2017/18 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2016/17 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2015/16 | Sefyllfa Cymru gyfan yn 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal Cymdeithasol i Oedolion** | | | | | | | |
| PAM/025 – Cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed a hŷn | ↓ | **4.35** | 3.24 | 6.32 | 4.95 | 7.61 | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| **Gofal Cymdeithasol i Blant** | | | | | | | |
| PAM/028 – Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd mewn amser | ↓ | **95%** | 97.6% | 97.86% | 94.6% | Amh. | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/029 – Canran y plant sy'n derbyn gofal yr oedd rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy | ↓ | **12%** | 11.3% | 6.28% | 6.54% | Amh. | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| **Tai** | | | | | | | |
| PAM/012 - Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag dod yn ddigartref | ↑ | 59.20 | 54.59 | 56.44 | Amh. | Amh. | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |

| Dangosydd | Perfformiad o flwyddyn i flwyddyn (rhwng 2018/19 a 2019/20) | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2019/20 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2018/19 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2017/18 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2016/17 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2015/16 | Sefyllfa Cymru gyfan yn 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| pam/013 - % yr anheddau sector preifat fu'n wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill a ddychwelwyd i feddiannaeth yn ystod y flwyddyn trwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | ↓ | **0.37** | 13.15 | 6.97 | 33.23 | 42.45 | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/045 - Nifer y cartrefi newydd a grëwyd o ganlyniad ailddefnyddio eiddo gwag | **Amh.** | **0** | Amh. (Mesur newydd ar gyfer 2019/20) | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/015 - Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl | ↑ | **275** | 280.85 | 218.41 | 228.00 | 198.78 | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| **Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd** | | | | | | | |
| PAM/018 - Canran yr holl geisiadau cynllunio a gafodd penderfyniad mewn pryd | ↓ | **82.86** | 86.61 | 82.64 | Amh. | Amh. | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/019 - Canran yr holl apeliadau cynllunio a gafodd eu gwrthod. | ↑ | **78.95** | 90.91 | 54.55 | Amh. | Amh. | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/036 – Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a gyflawnwyd fesul 10,000 o aelwydydd | ↓ | **30.28** | 33.35 | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/023 - % y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n eang' â safonau hylendid bwyd | ↑ | **93.68** | 92.29 | 88.73 | 94.29 | 90.17 | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| **Addysg** | | | | | | | |
| pam/006 Sgôr pwyntiau capio 9 ar gyfartaledd ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 | **Amh.** | **346.6** | Amh. (Mesur newydd ar gyfer 2019/20) | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/007 - % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | ↑ | **94.8** | 94.52 | 94.60 | 94.8 | 94.88 | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |

| Dangosydd | Perfformiad o flwyddyn i flwyddyn (rhwng 2018/19 a 2019/20) | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2019/20 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2018/19 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2017/18 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2016/17 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2015/16 | Sefyllfa Cymru gyfan yn 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/008 - % presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | ↓ | **93.9** | 94.04 | 93.71 | 93.7 | 93.70 | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/009 - % y disgyblion sy'n ymadael ym Mlwyddyn 11 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth neu hyfforddiant | ↓ | **2.13** | 1.8 | 1.12 | Amh. | Amh. | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/033 – % y disgyblion a gafodd eu hasesu yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen | **Amh.** | **12** | Amh. Mesur newydd ar gyfer 2019/20 | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/034 – % y disgyblion ym mlwyddyn 11 sy'n astudio Cymraeg (iaith gyntaf) | **Amh.** | **16** | Amh. Mesur newydd ar gyfer 18/19 | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| **Gwasanaethau Cymdogaeth** | | | | | | | |
| PAM/010 - % y priffyrdd a thir perthnasol a arolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol | ↑ | **96.67** | 96.51 | 93.5 | 93.4 | 95.00 | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/011 - Nifer y dyddiau ar gyfartaledd y cymerwyd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon | ↓ | **1.31** | 1.17 | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| pam/020 - % y prif ffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan | ↓ | **2.56** | 2.48 | 2.12 | 1.69 | 1.37 | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/021 - % y ffyrdd (B) nad ydynt yn brif ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan | ↓ | **4.81** | 4.77 | 4.33 | 4.19 | 5.60 | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/022 - % y ffyrdd (C) nad ydynt yn brif ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan | ↑ | **4.72** | 5.07 | 5.31 | 5.97 | 6.97 | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |

| Dangosydd | Perfformiad o flwyddyn i flwyddyn (rhwng 2018/19 a 2019/20) | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2019/20 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2018/19 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2017/18 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2016/17 | Perfformiad yr adroddwyd arno yn 2015/16 | Sefyllfa Cymru gyfan yn 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| PAM/030 – Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio | ↑ | **64.67** | 60.53 | 60.58 | 63.59 | 57.44 | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| PAM/043 – Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchwyd fesul person | ↑ | **182.28** | 201.95 | Amh. | Amh. | Amh. | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| **Hamdden** | | | | | | | |
| PAM/017 - Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol | ↑ | **9002.10** | 8905.55 | 9043.79 | 8,593.00 | 8,377.17 | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |
| **Adnoddau Dynol** | | | | | | | |
| pam/001 - Nifer y diwrnodau gwaith / shifftiau fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch | ↓ | **11.51** | 11.23 | 11.12 | 10.82 | 10.12 | **Amh.** (Nid oes data cymharol Cymru gyfan ar gyfer 2019/20) |

**D.S.** Nid yw nifer o fesurau ar gael ar hyn o bryd, sef:

- PAM/040 – Canran y Dangosyddion Ansawdd (gyda thargedau)
- PAM/041 – Canran y cleientiaid NERS a gyflawnodd y rhaglen ymarfer corff
  *(2019/20 Bydd data diwedd blwyddyn yn cael ei ddarparu gan CLlLC - Adroddiad Blynyddol ym mis Tachwedd 2020)*
- PAM / 042 - Canran cleientiaid y cynllun NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff
  *(2019/20 Darperir data diwedd blwyddyn gan CLlLC - Adroddiad Blynyddol ym mis Tachwedd 2020)*

TORFAEN COUNTY BOROUGH
BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

**Cynhyrchwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**

**Hydref 2020**

I gael rhagor o wybodaeth neu i wneud sylwadau ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r:

Tîm Gwella a Chraffu
Y Ganolfan Ddinesig,
Pont-y-pŵl,
Torfaen
NP4 6YB

Ffôn: 01495 766298
E-bost: corporate.plan@torfaen.gov.uk